Rhan B – Paratoi ar gyfer etholiad Senedd Ewrop

Cynnwys

1 Cynllunio a rheoli risg
- Fframwaith rheoli prosiect
- Cynllunio cychwynnol
- Rolau a chyfrifoldebau
- Paratoi cynlluniau wrth gefn
- Dulliau a thechnegau adrodd
- Cynllunio ar gyfer gweithgareddau ôl-etholiad
- Ffurflenni a chyfarpar etholiadol

2 Rheoli contractwyr a chyflenwyr
- Rolau a chyfrifoldebau
- Caffael

3 Cyllid etholiadau

4 Mynediad cyfartal
- Cynllunio ar gyfer mynediad
- Deddfwriaeth
- Laith
- Materion cyffredinol – arfer da
- Arweiniad a chyngor
- Cofrestru etholiadol
- Mynediad i'r bleidlais

5 Materion cofrestru etholiadol
- Dinasyddion aelod wladwriaethau'r UE
- Gwybodaeth i'r Ysgrifennydd Gwladol

6 Lleoliadau ar gyfer gweithgareddau'r etholiad
- Briffiadau
- Mannau pleidleisio a gorsafoedd pleidleisio
- Dosbarthu, derbyn ac agor pleidleisiau drwy'r post
- Lleoliadau cyfrif a dilysu lleol
- Cael cyfarpar i'r gorsafoedd pleidleisio a lleoliad y cyfrif
- Defnyddio ysgolion ac ystafelloedd gan yr ymgeiswyr

7 Staffio
Staff y Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol
Staff y Swyddog Canlyniadau Lleol
Recriwtio a chyflwyno staff yn effeithiol
Cyfarwyddebau Amser Gweithio
Deddf Lloches a Mewnfudo 1996
Yswiriant Gwladol
Treth incwm
Staff ar gyfer dosbarthu a derbyn papurau pleidleisio drwy'r post
Penodi Swyddogion Llywyddu a Chlercod Pleidleisio
Staff y cyfrif
Hyfforddiant

8 Uniondeb etholiadol
Darpariaethau cyfrinachedd
Troseddau etholiadol allweddol
Troseddau annetholiadol
Ymdrin â chyhuddiadau o droseddau yn yr etholiad
Diogeledd
Arsylwyr etholiadau

9 Cyhoeddusrwydd a'r cyfryngau
Dyletswydd i annog cyfranogiad etholiadol
Cynllunio gweithgareddau cyfathrebu
Hysbysiadau statudol a hysbysiadau eraill
Rheoli ymholiadau cyhoeddus
Pleidleisio drwy'r post a thrwy ddirprwy
Rheoli cysylltiadau â'r cyfryngau

10 Adnoddau
Cysylltiadau allweddol

1 Cynllunio a rheoli risg

Fframwaith rheoli prosiect

Y Swyddog Canlyniadau Lleol sy'n **bersonol gyfrifol** am gynnal a threfnu'r etholiad yn gywir yn eu hardal gyfrif leol. Ni ellir dirprwyo'r cyfrifoldeb personol hwn. Mae felly yn hollbwysig fod gan Swyddogion Canlyniadau Lleol gynlluniau ffurfiol, ysgrifenedig yn eu lle gydag amcanion a mesurau llwyddiant wedi'u diffinio'n glir sy'n caniatáu iddynt fonitro cynnydd yn erbyn yr amcanion hynny a nodi risgiau a ffactorau lliniarol cyfatebol.

1.1 Mae rhedeg etholiad yn weithrediad logistaidd cymhleth gyda goblygiadau statudol a rhwymedigaeth bersonol i Swyddogion Canlyniadau Lleol (a Rhanbarthol), yn cynnwys adnoddau ariannol a ffisegol sylweddol, ac wedi'i gyflwyno yn erbyn terfynau amser tynn iawn ac anhyblyg.

1.2 Dylai Swyddogion Canlyniadau allu dangos bod y systemau a ddefnyddir yn cynnig y rheolaeth rheoli sydd ei hangen wrth gyflwyno gwasanaeth statudol. Mae fframwaith rheoli prosiect yn galluogi ymagwedd strwythuredig a threfnus, yn cynnwys nodi, monitro, asesu a rheoli risgiau yn gywir.

Cynllunio cychwynnol

Cyn ystyried gofynion penodol etholiad Senedd Ewrop, rhan hollbwysig o ddechrau'r prosiect yw ymgymryd ag adolygiad trylwyr o effeithiolrwydd cynnal yr etholiad diwethaf ac ystyried unrhyw faterion cysylltiedig â newidiadau mewn deddfwriaeth.

1.3 Mae cam cyntaf adolygiad fwyaf effeithiol pan mae'n cael ei wneud cyn gynted ag y bo'n ymarferol yn dilyn yr etholiad diwethaf, pan fydd rhan fwyaf y materion yn ffres ym meddyliau'r staff. Gallai fod yn briodol gwahodd rhai o'r Swyddogion Llywyddu a'r Clercod pleidleisio mwyaf profiadol i unrhyw drafodaeth, ynghyd â 'newydd ddyfodiaid', er mwyn mynd i'r afael â phob agwedd ar y broses - o hyfforddiant i ymdrin â sefyllfaoedd anodd ar ddiwrnod yr etholiad. Gallai hefyd fod yn ddefnyddiol i gynnal arolwg o'r holl staff oedd wedi cymryd rhan yn yr etholiad, efallai drwy ddull arolwg drwy'r post yn dilyn yr etholiad, i gael gwybod am faterion a gododd, yn cynnwys perfformiad y Swyddogion Llywyddu a'r Clercod Pleidleisio.

1.4 Dylai cwmpas yr adolygiad gwmpasu pob agwedd ar yr etholiad, ond mae'n debygol mai'r meysydd lle mae angen craffu penodol fydd mannau pleidleisio a gorsafoedd pleidleisio, ansawdd y gofrestr, perfformiad contractwyr a chyflenwyr, rheoli contractau, staffio, cyfarpar a chyflenwadau, cyllid, diogeledd ac uniondeb yr etholiad, trefniadau cyfrif, cyfathrebu (mewnol ac allanol), a rheoli pleidleisiau drwy'r post.

1.5 Yna cam cyntaf y cynllunio yw adolygu'r holl wybodaeth a gasglwyd yn ystod yr adolygiad hwn. Dysgu o brofiad yr etholiad blaenorol, er na fydd yr un

mwyaf diweddar wedi bod yn etholiad Senedd Ewrop, ac ystyried y newidiadau sydd eu hangen bydd y man cychwyn allweddol ar gyfer etholiad sydd wedi'i gynllunio'n dda.

1.6 Hyd yn oed os na chynhaliwyd trafodaeth ôl-etholiad y tro diwethaf, mae gwerth o hyd mewn myfyrio ar yr etholiad blaenorol i geisio nodi unrhyw faterion cyn yr etholiad nesaf. Bydd nodi unrhyw faterion y gellid mynd i'r afael a hwy cyn etholiad a'u hadolygu wedyn yn dangos beth sydd wedi cael ei ddysgu o'r profiad a beth, os unrhyw beth, sydd angen ei wneud yn wahanol yn y dyfodol.

1.7 Gellir defnyddio'r wybodaeth a gesglir drwy'r adolygiad i lunio cynllun prosiect a chynllun wrth gefn ar wahân. Mae'r 'dogfennau byw' hyn yn declynnau rheoli y gellir eu defnyddio i sicrhau bod pob posibilrwydd yn cael ei gwmpasu.

1.8 Dylai cynllun y prosiect fod yn seiliedig ar dasgau a dylai gynnig trosolwg o sut y dylai'r etholiad gael ei reoli, yn cynnwys eglurhad o'r rolau a'r cyfrifoldebau, asesu risg a rheoli, llinellau adrodd a mecanweithiau ar gyfer monitro a sicrhau ansawdd. Dangosol yn unig yw hyn, a gallai fod yna faterion rheoli eraill y bydd Swyddogion Canlyniadau yn dymuno eu cynnwys. Dylid llunio cynlluniau manwl hefyd, sy'n cynnwys yr holl dasgau, terfynau amser statudol a logistaidd, cyfrifoldebau unigol, a nodi a dyrannu adnoddau priodol sy'n ofynnol.

Mae'r Comisiwn wedi datblygu patrymlun o gynlluniwr etholiad a chofrestr risg, y mae'r ddau ar gael ar wefan y Comisiwn yn fformat Microsoft Word, i weinyddwyr eu haddasu at eu defnydd eu hunain: www.electoralcommission.org.uk/guidance/resources-for-electoral-administrators

Rolau a chyfrifoldebau

1.9 Rhennir y cyfrifoldeb o gynnal etholiad Senedd Ewrop rhwng y Swyddog Canlyniadau ar gyfer pob rhanbarth etholiadol, y cyfeirir atynt fel y Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol, a'r Swyddog Canlyniadau sy'n gyfrifol am gynnal yr etholiad ym mhob ardal gyfrif leol, y cyfeirir atynt fel y Swyddog Canlyniadau Lleol.

1.10 Bydd y **Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol** ym mhob rhanbarth etholiadol yn gyfrifol am:

- reolaeth gyffredinol yr etholiad ar draws y rhanbarth, yn cynnwys cytuno ar linellau cyfathrebu effeithiol gyda Swyddogion Canlyniadau Lleol
- paratoi a chyhoeddi hysbysiad yr etholiad
- pob agwedd ar y weithdrefn enwebu
- derbyn hysbysiadau penodi asiantau ac is-asiantau etholiadol a chyhoeddi hysbysiadau penodiadau o'r fath

- pennu ffurf y papurau pleidleisio ac, os mai dyna benderfyniad y Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol, argraffu a threfnu dosbarthu papurau pleidleisio i Swyddogion Canlyniadau Lleol
- awdurdodi cyhoeddiad y Swyddog Canlyniadau Lleol ynghylch canlyniadau cyfrif lleol
- cyfrifo canlyniadau'r etholiad o fewn y rhanbarth a dyrannu seddau i ymgeiswyr
- cyhoeddi'r canlyniadau rhanbarthol a chyhoeddi canlyniadau'r etholiad
- trosglwyddo enwau a manylion eraill ASEau a etholir i'r Ysgrifennydd Gwladol

1.11 Gall y Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol roi i unrhyw Swyddog Canlyniadau Lleol yn eu rhanbarth gyfarwyddiadau ynghylch gweithredu eu swyddogaethau, yn cynnwys cyfarwyddiadau yn gofyn am ddarparu iddynt hwy unrhyw wybodaeth sydd gan y Swyddog Canlyniadau Lleol neu y mae'r hawl ganddo ei chael.[1]

1.12 Dylid defnyddio'r grym cyfarwyddo hwn ar ddisgresiwn y Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol. Pan y'i cyhoeddir gan y Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol, dyletswydd y Swyddog Canlyniadau Lleol perthnasol yw gweithredu eu swyddogaethau yn unol â'r cyfarwyddiadau.[2]

1.13 Y **Swyddog Canlyniadau Lleol** sy'n gyfrifol am gynnal a threfnu'r etholiad yn gywir yn eu hardal gyfrif leol, ond dylent weithredu yn unol â chyfarwyddiadau a roddir gan y Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol.

1.14 Mae Swyddogion Canlyniadau Lleol yn gyfrifol yn eu priod ardaloedd am:

- gynnal yr etholiad yr eu hardal gyfrif leol
- argraffu papurau etholiad, oni bai y cyfarwyddir hwy fel arall gan y Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol
- dosbarthu cardiau pleidleisio
- dosbarthu a derbyn papurau pleidleisio drwy'r post a phapurau pleidleisio drwy ddirprwy drwy'r post
- dilysu nodweddion adnabod personol
- dilysu cyfrifiadau'r papurau pleidleisio
- cyfrif y pleidleisiau yn eu hardal
- hysbysu'r cyhoedd am y canlyniad yn eu hardal ar ôl i'r canlyniad gael ei dderbyn a'i gymeradwyo gan y Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol
- cymryd camau priodol i annog cyfranogiad gan etholwyr yn y broses etholiadol

1.15 Mae'n ofynnol ar y Swyddog Canlyniadau Lleol benodi Swyddog Llywyddu ar gyfer pob gorsaf bleidleisio yn yr ardal gyfrif, a gall benodi cynifer o'r staff canlynol ag y mae eu hangen i gynorthwyo i gynnal yr etholiad:

[1] Rheoliad 9(3), Rheoliadau ESE.
[2] Rheoliad 9(4), Rheoliadau ESE.

- Dirprwy Swyddogion Canlyniadau Lleol (gweler 1.19)
- staff ar gyfer dosbarthu a derbyn pleidleisiau drwy'r post
- Clercod Pleidleisio
- staff cyfrif
- staff eraill i gynorthwyo â dyletswyddau eraill fel rhan o'r broses etholiadol

1.16 Dylai Swyddogion Canlyniadau Lleol roi i'r holl staff a benodir gopïau o Reoliad 29 o Reoliadau ESE 2004 sy'n nodi gofynion cyfrinachedd.

1.17 Mae'n bwysig nodi nad yw Swyddogion Canlyniadau a'u staff yn gyfrifol am fonitro ymddygiad ymgeiswyr, asiantau, pleidiau gwleidyddol cofrestredig, Swyddogion Enwebu neu ymgyrchwyr. Os honnir bod ymddygiad unrhyw un sy'n ymwneud â'r etholiad yn groes i'r gyfraith, dylid dod a'r mater i sylw'r heddlu. Rhaid i'r Swyddog Canlyniadau a'u staff weithredu'r ddiduedd yn eu hymwneud ag ymgeiswyr ac asiantau drwy gydol yr etholiad.

1.18 Ni all y Swyddog Canlyniadau Lleol benodi at ddibenion yr etholiad unrhyw un sydd wedi eu cyflogi gan neu ar ran plaid gofrestredig ymgeisydd unigol sydd wedi'i enwebu yn yr etholiad.[3] Dylai'r Swyddog Canlyniadau Lleol geisio addewid gan y bobl hynny y cynigir eu penodi nad ydynt, ac ni fyddant yn cael eu cyflogi felly.

1.19 Er bod y Swyddog Canlyniadau Lleol yn bersonol gyfrifol am gynnal yr etholiad, fe allant, fodd bynnag, benodi un neu fwy o Ddirprwy Swyddogion Lleol, y'u hadwaenir fel Dirprwyon yn yr Alban, i gyflawni pob un neu unrhyw rai o swyddogaethau'r swydd.[4] Gellir rhoi pwerau llawn neu bwerau penodol iddynt sy'n briodol i'r tasgau y bydd gofyn iddynt ymgymryd â hwy. Dylid cael penodiad a derbyniad ysgrifenedig ffurfiol, yn cynnwys manylion y pwerau a ddyfernir, wedi'u lofnodi gan y Swyddog Canlyniadau a'r Dirprwy. Os cynhelir cyfrifiadau mewn gwahanol leoliadau, mae'n rhaid penodi Dirprwy ar gyfer pob lleoliad.

1.20 Mae'n hanfodol nodi uwch swyddog i reoli'r paratoadau ar gyfer yr etholiad, a chynnal yr etholiad dydd i ddydd. Fodd bynnag, rhaid i'r cyfrifoldeb a'r penderfyniadau terfynol fod ar ysgwyddau'r Swyddog Canlyniadau Lleol.

1.21 Dylai cynllun y prosiect nodi rolau a chyfrifoldebau pawb sydd â'r dasg o gyflawni agweddau penodol ar yr etholiad, a dylai nodi'n glir yn ysgrifenedig y llinellau adrodd. Gallai'r rhain fod yn wahanol iawn i linellau adrodd yn strwythur arferol y cyngor. Mae'n bwysig bod y Swyddog Canlyniadau Lleol yn sicrhau y rhoddir blaenoriaeth bennaf i waith etholiadol gan y cyngor yn ei gyfanrwydd.

1.22 Mae'n hollbwysig bod pob aelod o'r tîm etholiadol yn deall eu rôl benodol ac unrhyw oblygiadau statudol sy'n gysylltiedig â'r gwaith y maent yn ymgymryd ag ef.

---

[3] Rheol 30(1), Rheolau ESE.

[4] Drwy gydol y llawlyfr hwn, dylid darllen pob cyfeiriad i 'Ddirprwy Swyddog Canlyniadau' fel 'Dirprwy' mewn perthynas â'r Alban.

Gweler Rhan A, 'Cyd-destun', ar gyfer cael eglurhad o rolau a chyfrifoldebau swyddogion perthnasol, gan gynnwys y swyddogaethau sy'n cael eu rhannu rhwng Swyddogion Canlyniadau yn etholiadau cyfun y sir a Senedd Ewrop.

Paratoi cynlluniau wrth gefn

1.23 Drwy adolygu cynnal yr etholiad blaenorol bydd unrhyw anawsterau a phroblemau a'r mesurau a gymerwyd i'w datrys wedi eu nodi eisoes. Yn ogystal â hyn, mae'n hollbwysig rhestru'r holl risigau posib i gyflawni'r etholiad yn ddiogel, nodi'r hyn y gellir ei wneud i sicrhau nad yw risgiau o'r fath yn digwydd, a datblygu cynlluniau wrth gefn gydag opsiynau ar gyfer ymdrin â phosibiliadau o'r fath os byddant yn codi.

1.24 Dylai cynllun wrth gefn hefyd nodi pa mor ddifrifol yw unrhyw risg, drwy fyfyrio ar y tebygrwydd y bydd y risg yn digwydd ac effaith risg o'r fath pe byddai'n digwydd. Er enghraifft, pe byddai blwch pleidleisio yn cael ei fethu a'i gynnwys heb ei gynnwys yn y dilysu a/neu'r cyfrif, byddai canlyniadau difrifol i uniondeb canlyniad yr etholiad ac felly mae'n cynrychioli lefel uchel o risg i'r Swyddog Canlyniadau Lleol yn bersonol.

1.25 Amcan allweddol nodi risgiau yw rheoli'r risgiau hynny. Mae arbenigedd sylweddol o fewn awdurdodau lleol wrth nodi a rheoli risg y gellir galw arno i gynorthwyo gyda llunio cynllun etholiad wrth gefn manwl. Mae atal yn well na chywiro, ac mewn llawer o achosion nid yw cyfraith etholiadol yn cynnig datrysiad ac eithrio drwy ddeiseb etholiadol.

1.26 Er mwyn cynorthwyo Swyddogion Canlyniadau Lleol yn y dasg o nodi a rheoli risgiau a datblygu cynllun wrth gefn, mae patrymlun o gynllun wrth gefn ar gael ar wefan y Comisiwn. Mae hwn yn rhoi rhai enghreifftiau o risigau posib a gellir ei addasu at amgylchiadau lleol, gan y gallai fod risigau penodol i ardal ac amgylchiadau arbennig, y bydd angen ei nodi a'u rheoli.

Cywiro camgymeriadau gweithdrefnol

1.27 Caniateir i Swyddogion Canlyniadau Rhanbarthol gywiro camgymeriadau gweithdrefnol a wneir mewn perthynas â'u swyddogaethau naill ai ganddyn nhw'u hunain neu gan Swyddog Cofrestru Etholiadol, Swyddog Llywyddu, person sy'n darparu nwyddau neu wasanaethau i'r Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol neu Swyddog Canlyniadau Lleol, neu unrhyw Ddirprwy neu gynorthwyydd awdurdodedig i unrhyw rai o'r uchod. [5]

1.28 Ni fydd Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol na Swyddog Canlyniadau Lleol yn euog o weithred neu esgeulustod sy'n torri dyletswydd swyddogol os byddant yn 'cywiro'r weithred neu'r esgeulustod **yn llwyr'** drwy gymryd camau o dan y pŵer hwn. [6] Felly, gellir defnyddio'r pŵer i gywiro camgymeriadau gweinyddol y gallent fel arall wedi esgor ar dorri dyletswydd. Fodd bynnag, mater i'r llysoedd o hyd fyddai penderfynu a oedd y weithred neu'r

[5] Rheoliad 9(4A) Rheoliadau ESE.
[6] Rheoliad 9(5) Rheoliadau ESE.

esgeulustod wedi'i gywiro 'yn llwyr',a dylai Swyddogion Canlyniadau Rhanbarthol a Lleol sicrhau eu bod yn nodi'n glir yn ysgrifenedig unrhyw broblemau y deuir ar eu traws wrth gynnal yr etholiad ac unrhyw benderfyniadau a gweithrediadau a gymerir i gywiro'r sefyllfaoedd hynny, gan nad yw'r ddarpariaeth hon yn cael gwared ar y risg o herio'r etholiad neu ganfyddiad gan lys o dorri dyletswydd.

1.29 Mae hefyd yn bwysig nodi nad yw'r ddarpariaeth hon yn caniatáu i Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol neu Leol ailgyfrif y pleidleisiau a fwrir mewn etholiad ar ôl i'r canlyniad gael ei gyhoeddi.[7] Ar ôl i ganlyniad gael ei gyhoeddi, waeth bynnag a yw'n gywir ai peidio, mae'n derfynol a gellir ei herio gan ddeiseb etholiad yn unig, ac nid yw'r gallu i gywiro camgymeriadau gweithdrefnol yn amrywio'r egwyddor hon. Dylai Swyddogion Canlyniadau sicrhau eu bod yn rheoli'n gywir y risg o gyhoeddiadau canlyniadau anghywir drwy ddilyn gweithdrefnau cadarn yn ystod y cyfrif.

Yswiriant

1.30 Gan eu bod yn bersonol gyfrifol, dylai Swyddogion Canlyniadau Lleol sicrhau bod yswiriant digonol ganddynt. Mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder (MoJ) yn archwilio i'r ymarferoldeb a'r costau sy'n gysylltiedig â phrynu naill ai yswiriant neu indemniad ar gyfer Swyddogion Canlyniadau Lleol.

Nododd cyngor gan un yswiriwr yn ystod etholiadau llywodraeth leol Lloegr yn 2006 rhag ofn bod anawsterau'n codi a chynlluniau yn gorfod cael eu newid, dylid cadw cofnodion cywir o benderfyniadau a gymerir a'r rhesymau dros weithrediadau.

Nodwyd y gallai'r cofnodion hyn fod yn ddefnyddiol iawn pe byddai penderfyniadau neu ganlyniadau etholiadau yn cael eu herio yn ddiweddarach. Waeth bynnag pa yswiriwr sy'n darparu'r yswiriant, awgrymir bod Swyddogion Canlyniadau yn mabwysiadu'r ymagwedd hon yn eu harferion gweithio arferol.

Am wybodaeth bellach, e-bostiwch Paul Brunton, Uwch Ymgynghorydd Polisi, MoJ, yn paul.brunton@justice.gsi.gov.uk, neu ffoniwch 020 3334 3778, neu ysgrifennwch i:

Election and Democracy Division
Ministry of Justice
7th Floor
102 Petty France
London SW1H 9AJ

Dulliau a thechnegau adrodd

1.31 Fel y nodwyd uchod, er mwyn sicrhau rheoli'r etholiad yn effeithiol mae'n hanfodol bod cydlyniad canolog mewn perthynas â holl baratoadau a

[7] Rheoliad 9(4B), Rheoliadau ESE.

gweithgareddau'r etholiad. Dylai llinellau cyfathrebu clir gyda holl lefelau strwythur rheoli'r etholiad sicrhau bod strwythurau adrodd addas yn cael eu sefydlu a'u cynnal gan yr holl staff sy'n ymwneud â rhedeg yr etholiad o ddydd i ddydd.

1.32 Mae'r rhestr ganlynol yn darparu enghreifftiau o ddulliau a thechnegau adrodd, y mae gweinyddwyr etholiadol, o brofiad, wedi eu cael yn ddefnyddiol:

- amserlen neu gynlluniwr etholiad i wirio cynnydd
- adroddiadau eithriadau sy'n dangos tasgau sy'n syrthio y tu ôl i'r amserlen
- diweddaru adroddiadau am berfformiad contractwyr, yn cynnwys amser, ansawdd a chost
- cyfarfodydd tîm rheolaidd
- agendâu strwythuredig ar gyfer cyfarfodydd
- cofnodion a phwyntiau gweithredu o gyfarfodydd blaenorol
- gwariant amcangyfrifedig wedi'i nodi yn erbyn y ffioedd ar gael
- cynllun adnoddau - argaeledd a chymhwysedd hyfforddwyr a staff, ac unrhyw drefniadau arbennig ar gyfer dyrannu staff i orsafoedd pleidleisio, er enghraifft pan fydd gofyniad iaith penodol mewn ardal lle mae nifer uchel o etholwyr nad y Saesneg yw eu hiaith gyntaf
- adroddiadau ar faterion penodol, neu sy'n gofyn am arbenigedd penodol – er enghraifft, cyngor cyfreithiol, diogeledd, neu drefniadau gyda'r heddlu, y cyfryngau darlledu a'r wasg

1.33 Mae'n hanfodol cytuno, ar gam cynnar, trefniadau clir ar gyfer dull ac amlder adrodd rhwng y Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol a'r Swyddog Canlyniadau Lleol a rhwng y person sy'n rheoli cynnal yr etholiad o ddydd i ddydd a'r Swyddog Canlyniadau Lleol, ac unrhyw Ddirprwyon. Gall y cyfathrebu hwn fod yn ddyddiol, yn wythnosol neu yn eithriadol os digwydd problem sylweddol.

1.34 Mae'n rhaid i'r person sy'n rheoli rhedeg yr etholiad o ddydd i ddydd gael gwybodaeth gadarn am eu tîm eu hunain i sicrhau bod proses gyfathrebu effeithiol yn ei lle a'i bod yn gadarn. Dylai Swyddogion Canlyniadau Lleol sicrhau eu bod yn trafod cynllunio'r etholiad yn gynnar yn y cam paratoi ac yn rheolaidd drwy gydol cynnal yr etholiad.

Cynllunio ar gyfer gweithgareddau ôl-etholiad

1.35 Dylai'r broses gynllunio gynnwys cyfnod gwerthuso fydd yn digwydd yn fuan ar ôl yr etholiad er mwyn adolygu effeithiolrwydd ei gynnal fel y nodir uchod ac i amlygu unrhyw bwyntiau dysgu ar gyfer y dyfodol, tra bod y profiad yn weddol ffres.

1.36 Byddai hefyd yn fuddiol tynnu sylw ymgeiswyr ac asiantau at eich bwriad i gynnal adolygiad, a gwahodd eu sylwadau.

1.37 Yn ogystal, gall darparu ffurflenni adborth ar gyfer staff gorsafoedd pleidleisio ac etholwyr, i nodi a oedd unrhyw broblemau neu faterion gyda

lleoliadau'r gorsafoedd pleidleisio, ddarparu gwybodaeth werthfawr ar gyfer cynllunio yn y dyfodol. Gallai ymagwedd debyg i'r trefniadau ar gyfer ymdrin â phleidleisiau drwy'r post a'r cyfrif fod yn ddefnyddiol hefyd.

Ffurflenni a chyfarpar etholiadol

1.38 Mae angen ar etholiadau swm sylweddol o ddeunydd swyddfa a chyfarpar penodol i'r etholiad a chyffredinol. Dylai adolygu'r etholiad blaenorol alluogi'r Swyddog Canlyniadau Lleol i bennu effeithiolrwydd y deunyddiau a'r cyfarpar a ddefnyddiwyd, ac i archwilio cyflenwadau presennol o eitemau allweddol, fel bythau pleidleisio a blychau pleidleisio. Yna gellir defnyddio'r wybodaeth hon i hysbysu amcangyfrifon ar gyfer ail-archebu deunydd swyddfa a chyfarpar etholiad sy'n cael ei adnewyddu.

1.39 Dylid nodi bod Deddf Yr Iaith Gymraeg 1993 yn gosod cyfrifoldeb ar Swyddogion Canlyniadau yng Nghymru i ddarparu deunydd etholiad dwyieithog i etholwyr.

2 Rheoli contractwyr a chyflenwyr

Rolau a chyfrifoldebau

2.1 Gall Swyddogion Canlyniadau Lleol anfon allan gwaith penodol sydd ei angen i gyflwyno etholiad Senedd Ewrop, ond nid y cyfrifoldeb dros sicrhau cydymffurfio â'r rheolau a'r rheoliadau. Mae'r dyletswyddau a'r oblygiadau ar gyfer cynnal yr etholiad yn effeithiol yn aros gyda'r Swyddogion Canlyniadau Lleol. Rydym yn cynghori'n gryf bod Swyddogion Canlyniadau Lleol a'u staff yn llunio eu barn annibynnol eu hunain o'r gofynion statudol ar gyfer unrhyw waith a anfonir allan a'u bod yn gwirio bod unrhyw waith o'r fath yn cwrdd â'r holl ofynion statudol.

2.2 I weithredu'n effeithiol, mae angen i weinyddu etholiad gael yr adnoddau cywir gyda staff a hyfforddwyd yn dda sydd â lefel ddigonol o wybodaeth ac arbenigedd, a hynny o ofynion statudol rheoli etholiad ac o weithdrefnau caffael a rheoli contractau. Mae'n hollbwysig bod y gofynion statudol a'u goblygiadau yn cael eu hegluro'n llawn pryd bynnag y defnyddir contractwyr, er mwyn osgoi unrhyw gamddealltwriaeth yn ddiweddarach.

Caffael

2.3 Bydd yr adolygiad o'r etholiad blaenorol, ynghyd ag unrhyw amgylchiadau sydd wedi codi yn ddiweddar, yn hysbysu'r penderfyniad i anfon allan swyddogaeth neu dasg benodol. Dylid nodi risigau anfon gwaith allan yn glir a'u cofnodi, gyda chynllun wrth gefn wedi'i adeiladu i mewn i'r broses gaffael a rheoli contractau.

2.4 Gorau po cynharaf y gwneir penderfyniadau i anfon gwaith allan, y paratoir manylebau ac y gwahoddir cwmnïau priodol i dendro am y gwaith. Wrth i fwy o waith etholiadol gael ei anfon allan, y cyflymaf y bydd cyflenwyr gwasanaethau o'r fath yn cael eu harchebu ac yn methu â derbyn rhagor o waith. O ystyried pa mor anhyblyg yw'r amserlen etholiadol, dylid nodi ac archebu cyflenwyr mor gynnar â phosib.

2.5 Dylid ei wneud yn glir i gontractwyr y dylent fod yn cynhyrchu gwaith yn unol â'r fanyleb a nodir gan y Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol neu Leol. Mewn rhai achosion, mae swyddfeydd etholiadol wedi gofyn i gontractwyr beth sy'n dderbyniol a beth y dylid ei wneud, neu y dywedwyd wrthynt na ellid gwneud rhywbeth pan gofynnir amdano. Dylai unrhyw ymholiad am gynllun papurau pleidleisio neu ddeunyddiau etholiadol eraill gael ei ddatrys gan y staff etholiadol eu hunain, drwy gyfeirio, yn ôl yr angen, at y Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol, y ddeddfwriaeth berthnasol ac arweiniad y Comisiwn, drwy gysylltu â'r Comisiwn neu drwy gyfeirio at staff etholiadol profiadol eraill. Dylid nodi mai cyfrifoldeb personol y Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol a Lleol yw methiant unrhyw gontractiwr i gydymffurfio â deddfwriaeth etholiadol.

2.6 Bydd yr awdurdod lleol wedi mabwysiadu gorchmynion sefydlog neu reoliadau yn ymwneud â chontractau a chaffael. Mae nifer o gynghorau

bellach yn defnyddio e-gaffael i archebu a thalu am eu nwyddau. Cynghorir y dylid derbyn cyngor ynghylch y gweithdrefnau i'w dilyn, er bod yn rhaid i Swyddogion Canlyniadau Lleol gadw mewn cof arweiniad yr Uned Hawliadau Etholiadol (ECU) neu Swyddfa'r Alban a gofynion cyfreithiol eraill ar gyfer caffael nwyddau a gwasanaethau.

2.7 Cytunir yn gyffredinol ei fod yn arfer da o ran caffael i gael tri dyfynbris ysgrifenedig o leiaf. Efallai bydd gan rai cynghorau, fodd bynnag, restr sefydlog o gontractwyr cymeradwy sydd eisoes wedi bod drwy'r broses dendro ac, mewn rhai achosion, gallai fod yn fwy effeithiol ac economegol i ddefnyddio contractwyr a systemau o'r fath.

2.8 Fel isafswm, bydd angen drafftio manyleb fanwl o ofynion, gan ddarparu cyfarwyddiadau clir ynghylch y goblygiadau statudol angenrheidiol mewn perthynas â'r gwaith neu'r gwasanaethau penodol yr ymgymerir â hwy. Dylid darparu'r fanyleb hon i'r holl gwmnïau hynny y'u gwahoddir i dendro am y gwaith. Mae'n rhaid i'r cwmni llwyddiannus allu cwrdd â holl ofynion y fanyleb hon.

2.9 Wrth wneud penderfyniad ynghylch dethol cwmni i gyflawni'r gwaith, dylai'r Swyddog Canlyniadau Lleol sicrhau eu bod yn deall a bod tystiolaeth ganddynt am lefel a natur profiad ac addasrwydd y cwmni i ymgymryd â'r gwaith sy'n cael ei anfon allan. Dylai Swyddogion Canlyniadau Lleol hefyd fodloni'u hunain y bydd gan y cwmni y gallu i gwblhau unrhyw waith a gontractiwyd i'r safon ofynnol. Argymhellir ceisio geirdaon ffurfiol, a bod enghreifftiau o waith etholiadol blaenorol yn cael eu darparu a'u hadolygu. Mae hefyd yn hanfodol bod gwiriadau priodol yn cael eu gwneud yn erbyn datganiadau'r cwmni ynghylch materion fel yswiriant, cynllunio wrth gefn a gallu, rheoli ansawdd, diogeledd, iechyd a diogelwch, ac ati.

2.10 Yn ogystal, mae'n hollbwysig bod yn ymwybodol o a fydd y cwmni sy'n cael ei ystyried ar gyfer y gwaith yn defnyddio isgontractwyr i gyflwyno unrhyw agwedd ar y gwaith hwnnw. Bydd hyn yn creu lefel arall o risg a llinellau cyfathrebu ychwanegol. Bydd angen i'r Swyddog Canlyniadau Lleol dderbyn sicrwydd bod yr isgontractwyr yn gallu cyflwyno'r gwaith a bod prosesau sicrhau ansawdd priodol yn eu lle.

2.11 Dylid cael dyfynbris terfynol gan y cwmni a ddetholwyd, yn cynnwys pob agwedd ar y gwaith fel a nodir yn y fanyleb. Dylai unrhyw amrywiadau a gytunir gyda'r cwmni fod ar ffurf ysgrifenedig a chael eu derbyn gan y ddau barti. Dylid llunio contract ffurfiol ac fe gynghorir y gwneir hyn gyda chyngor gwasanaeth cyfreithiol neu uned gaffael y cyngor.

2.12 Nid pris terfynol y contract ddylai fod yr unig ystyriaeth wrth ddewis contractiwr. Dylai'r ffocws fod ar 'werth am arian'. Rhaid cwblhau gwaith etholiadol ar amser ac i safon uchel, a dylai'r Swyddog Canlyniadau Lleol felly ystyried yr hyn y mae pob cais yn ei gynnig.

2.13 Yn Lloegr a Chymru, gellir cael grantiau tuag at gostau prynu bythau pleidleisio a blychau pleidleisio gan yr ECU. Yn yr Alban, gellir eu cael gan Swyddfa'r Alban. Dylid cyflwyno hawliadau am gost adnewyddu sgriniau

pleidleisio i'r ECU neu Swyddfa'r Alban ar y ffurflen gais gymeradwy. Bydd hawliadau a gymeradwyir yn cael eu had-dalu, ac ystyrir y taliadau fel blaendaliadau tuag at gostau'r etholiadau Senedd Ewrop. Yn yr Alban, gall Swyddfa'r Alban gynnig blaendaliadau ar gyfer prynu cyfarpar angenrheidiol. Yna gall Swyddogion Canlyniadau Lleol geisio ad-daliadau drwy'r gorchymyn ffioedd a chostau.

2.14 Er nad yw sgriniau neu fythau pleidleisio a brynir gyda chymorth grant o'r Trysorlys yn eiddo i'r cyngor, cânt eu storio fel arfer gan y cyngor a gellir eu defnyddio ar gyfer etholiadau llywodraeth leol hefyd.

2.15 Mae'n ofynnol ar y Swyddog Canlyniadau Lleol gyflenwi ar gyfer pob gorsaf bleidleisio pa nifer bynnag o bapurau pleidleisio y maent yn ei deimlo sy'n angenrheidiol.[8] Mae angen ystyried yn ofalus y nifer fydd eu hangen. Dylai unrhyw Swyddog Canlyniadau Lleol sy'n cael trafferthion wrth drefnu argraffu papurau pleidleisio gysylltu â chyfarwyddwr rhanbarthol agosaf y Ffederasiwn Diwydiannau Argraffu Prydeinig, y mae modd cysylltu â hwy drwy www.bpif.org.uk

Anfon allan y gwaith o gynhyrchu pecynnau pleidleisio drwy'r post

2.16 Yn nhermau anfon allan y gwaith o gynhyrchu pecynnau pleidleisio drwy'r post, dylai Swyddogion Canlyniadau Lleol nodi, oni bai bod y Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol yn ei gyfarwyddo fel arall, eu bod yn gyfrifol am argraffu'r papurau pleidleisio. Beth bynnag fo'r sefyllfa, dylai Swyddogion Canlyniadau Lleol gysylltu'n agos â'r Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol i sicrhau bod unrhyw ddeunydd swyddfa yn cydymffurfio'n llawn â gofynion y ddeddfwriaeth, yn cynnwys y rhestr pleidleiswyr drwy'r post, ffurf ragnodedig ar bapur pleidleisio, datganiad pleidleisio drwy'r post, nod swyddogol a'r amlenni i'w defnyddio.[9]

Cyfunedig
Bydd angen i Swyddogion Canlyniadau Lleol benderfynu a fyddant yn dosbarthu pleidleisiau drwy'r post ar y cyd neu'n trefnu dosbarthiadau ar wahân ar gyfer pob etholiad. Dylid hysbysu cyflenwyr unwaith bydd y penderfyniad wedi'i wneud. Pa benderfyniad bynnag a wneir, ni ddylid ei seilio ar gost ac arbed ymdrech weinyddol yn unig, ond dylai ymwneud yn bennaf â'r effaith ar etholwyr.

2.17 Mae'n rhaid i bapur pleidleisio drwy'r post fod yr un peth â phapur pleidleisio mewn gorsaf bleidleisio. Dylid cynhyrchu'r holl bapurau pleidleisio ar bapur o safon ddigon uchel fel na fydd marciau'r pleidleiswyr, yn cynnwys y rheiny a wneir gyda phinnau ac ati, yn cael eu gweld - yn enwedig yn ystod sesiynau agor pleidleisiau drwy'r post ac yn ystod dilysu pleidleisiau, pan y dylid cadw'r papurau pleidleisio wyneb i lawr bob amser.

[8] Rheol 32(1), Rheolau ESE.
[9] Rheolau 22 a 28, Rheolau Etholiadau Senedd Ewrop, Paragraffau 5, 42 a 50. Atodlen 2, Rheoliadau Etholiadau Senedd Ewrop.

2.18 Mae'n rhaid i gynllun y papur pleidleisio ddilyn hynny a nodir yn rheolau'r etholiad.[10]

2.19 Nid oes angen argraffu papurau pleidleisio gyda bonyn bellach, mae'n rhaid defnyddio rhestr o rifau cyfatebol nawr yn eu lle.

2.20 Rhaid i bob papur pleidleisio drwy'r post gynnwys nod diogeledd priodol, a adwaenir fel y 'nod swyddogol', a nod adnabod unigryw arall. Os mai dyna ddymuniad y Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol neu Leol, gall y nod swyddogol a ddefnyddir ar bapurau pleidleisio drwy'r post fod yr un peth â'r hyn a ddefnyddir yn y gorsafoedd pleidleisio, ond nid oes rhaid iddo fod.[11] Nid oes rhaid i'r nod swyddogol fod yn drydylliad a ychwanegir ar yr un pryd ag y dosberthir y papur pleidleisio, gallai fod yn argraffu arwyddlun neu nod neu ddyfais argraffu arbennig fel dyfrnod. Os, fydd bynnag, nad yw'r Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol neu Leol yn dewis defnyddio nod argraffedig fel dyfrnod neu thanbrint, gellir stampio'r papurau pleidleisio gyda nod swyddogol sy'n trydyllu. Nid yw'r rheoliadau, yn ein barn ni, yn pennu ar ba adeg y dylid gosod y nod. Dylai Swyddogion Canlyniadau Rhanbarthol a Lleol fodd bynnag sicrhau bod cyfrinachedd y nod yn cael ei gynnal. Pa ffurf bynnag ar nod swyddogol sy'n cael ei defnyddio, mae'n rhaid i'r nod fod yn briodol i sicrhau diogeledd ac atal copïo. Ar ôl i nod gael ei ddefnyddio, ni ellir ei ailddefnyddio am bum mlynedd yn yr un ardal gyfrif leol.[12]

2.21 Yn ogystal â chael eu rhifo, mae'n **rhaid** i'r holl bapurau pleidleisio, yn cynnwys y rheiny i'w dosbarthu mewn gorsafoedd pleidleisio, gynnwys nod adnabod unigryw arall, y mae'n rhaid iddo fod yn unigryw i bob papur pleidleisio unigol. Gall y nod hwn fod yn llythrennau a rhifau a gallai, er enghraifft, fod yn rhif y papur pleidleisio gan ychwanegu rhagddodiad neu olddodiad. Enghraifft bosib fyddai 'E UDDd 1', i ddynodi etholiad Seneddol E(wropeaidd) (rhag ofn iddo gael ei gyfuno â math arall o etholiad), yn ardal gyfrif leol U(nrhyw) D(ref) neu Dd(inas) gyda rhif y papur pleidleisio, sef 1, yn cael ei argraffu fel olddodiad. Dylid nodi bod y defnydd o'r rhif '1' yn ychwanegol i argraffu'r rhif '1' yn adran rhif y papur pleidleisio y papur pleidleisio. Hefyd, gall nod adnabod unigryw fod yn god bar, er nad oes yn rhaid iddo fod.

2.22 Dylid gwneud penderfyniadau ar yr hyn i'w ddefnyddio fel y nod swyddogol a'r nod adnabod unigryw, yn arbennig a ddylid defnyddio marciau tebyg ar draws y rhanbarth neu ar draws yr ardal gyfrif leol, ar gam cynnar yn y broses baratoi.

2.23 Pan yn anfon allan y gwaith o gynhyrchu pleidleisiau drwy'r post, dylai'r holl ddata, yn cynnwys y nod adnabod unigryw, gael ei gynnwys mewn meysydd gwahanol yn y ffeil ddata. Dylai pob darn o wybodaeth ar wahân (gan gofio bod y nod adnabod unigryw a rhif y papur pleidleisio yn ddau ddarn o wybodaeth ar wahân) fod yn faes neu'r golofn ar wahân yn y ffeil ddata. Dylai gweinyddwyr etholiadol sicrhau bod eu meddalwedd yn gallu cynhyrchu

[10] Rheol 22, Rheolau ESE.
[11] Rheol 24(3) Rheolau ESE.
[12] Rheol 24(2) Rheolau ESE.

ffeil ddata y gall eu hargraffwyr ei defnyddio'n hawdd i gynhyrchu deunydd i'r fanyleb ofynnol. Dylai Swyddogion Canlyniadau Lleol gytuno'n gynnar gyda'r cyflenwyr y fformat y byddant yn ei ddefnyddio i gyflenwi papurau pleidleisio neu ddatganiadau pleidleisio drwy'r post.

2.24 Dylid rhoi sampl o ddata, yn cynnwys penawdau'r data, i'r argraffwyr ar gam cynnar yn y broses, ymhell cyn i ddata 'byw' gael ei gyflwyno, er mwyn gallu gweithio ar fformat y data. Bydd hyn hefyd yn galluogi datblygu cyn-broflenni fel ei fod yn glir pa ran o'r data ddylai gael ei osod ym mha ran o'r papur pleidleisio neu'r amlen.

2.25 Mae'n rhaid cael dwy amlen ar wahân yn y pecyn pleidleisio drwy'r post:

- amlen wedi'i marcio â'r llythyren 'B' ar gyfer dychwelyd yr amlen papur pleidleisio a'r datganiad pleidleisio drwy'r post
- amlen papur pleidleisio wedi'i marcio â'r llythyren 'A', y geiriau 'amlen papur pleidleisio', a rhif y papur pleidleisio

2.26 Mae ffurf y datganiad pleidleisio drwy'r post wedi'i ragnodi, ac felly dylai'r Swyddog Canlyniadau Lleol ystyried a oes angen iddynt wyro oddi wrth y geiriad a'r fformat ar y ffurflen ragnodedig am reswm dilys cyn iddynt wneud hynny.[13]

2.27 Yn ogystal â'r papur pleidleisio, y datganiad pleidleisio drwy'r post ac amlenni, gall Swyddogion Canlyniadau Lleol gynnwys pa wybodaeth bynnag y maent o'r farn ei bod yn briodol am sut i gaffael:

- cyfieithiadau i mewn i ieithoedd ac eithrio'r Saesneg, ac yng Nghymru, i'r Gymraeg, o unrhyw gyfarwyddiadau ac arweiniad i bleidleiswyr a anfonir gyda'r papur pleidleisio
- cyfieithiad i mewn i Braille o unrhyw gyfarwyddiadau neu arweiniad o'r fath
- cynrychioliadau daearyddol o unrhyw gyfarwyddiadau neu arweiniad o'r fath
- y cyfarwyddiadau neu'r arweiniad mewn ffurfiau eraill (yn cynnwys sain)[14]

Rheoli contractau

2.28 Mae'n hollbwysig bod contract neu gytundeb ysgrifenedig ffurfiol ar gyfer y gwaith, gan y gellir defnyddio hyn i sicrhau bod sicrhau ansawdd yn cael ei gynnal yn effeithiol. Fel y trafodwyd yn gynharach yn yr adran hon, mae gan awdurdodau lleol weithdrefnau ffurfiol ar gyfer caffael a gosod contractau, y gall y Swyddog Canlyniadau Lleol eu defnyddio a/neu eu haddasu. Gellir defnyddio rheolwyr profiadol yn y meysydd hyn i sicrhau bod gweithdrefnau rheoli contractau priodol a chadarn yn cael eu dilyn, gan felly leiafu'r risg.

[13] Rheol 28, Rheolau Etholiadau Senedd Ewrop; Paragraff 42, Rhestr 2, Rheoliadau Etholiadau Senedd Ewrop.
[14] Rheoliad 122A, Rheoliadau ESE.

Mae'r Asiantaeth Gwella a Datblygu (I&DeA) yn darparu contractau model ar eu gwefan y gellid eu haddasu i'w defnyddio gan Swyddogion Canlyniadau Lleol: www.idea.gov.uk/idk/core/page.do ?pageId=5829996

Fodd bynnag, dylai Swyddogion Canlyniadau Lleol geisio cyngor cyfreithiol bob amser wrth ddrafftio contractau.

2.29 Dylid cadarnhau'r amserlenni i'r cwmni ymgymryd â'r gwaith a'i gyflwyno ymlaen llaw. Dylid cofnodi pob cam o'r broses yn dda ac mae cyfathrebu parhaus yn bwysig i bob parti. Mae cynnal llinellau cyfathrebu agored rhwng y contractiwr a'r Swyddog Canlyniadau Lleol yn allweddol i gyflwyno unrhyw waith a gontractiwyd yn llwyddiannus ac yn amserol.

2.30 Sicrhewch fod darpariaethau penodol o fewn y contract i'r Swyddog Canlyniadau Lleol, y Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol, neu aelod(au) staff a enwebwyd, i ymweld ag eiddo'r cwmni (yn cynnwys rheiny isgontractwyr, os yn briodol) er mwyn bod yn bresennol pan fydd y gwaith yn cael ei wneud, ac i allu gwirio ansawdd y papurau pleidleisio, y pecynnau pleidleisio drwy'r post neu waith arall. Yn ogystal, dylid gwneud darpariaeth yn y contract i ganiatáu i gynrychiolwyr y Comisiwn ac arsylwyr a achredwyd yn swyddogol i fynychu eiddo'r cwmni i arsylwi'r broses.[15]

2.31 Sicrhewch fod darpariaethau penodol o fewn y contract yn ymwneud â chyfrinachedd - dylai'r hysbysiad priodol ynghylch cyfrinachedd ffurfio rhan o'r cytundeb, gyda gofyniad bod y cwmni yn darparu'r hysbysiad i'w holl staff. Mae'n rhaid i hyn gynnwys unrhyw isgontractwyr a ddefnyddir i gyflawni'r gwaith.[16]

Sicrhewch fod y Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol neu Leol yn cadw rheolaeth dros y broses ac nad yw'r cwmni a gontractiwyd i wneud y gwaith yn gwneud unrhyw benderfyniadau heb eu dealltwriaeth a'u hawdurdod llawn. Gallai unrhyw amrywiadau o'r fanyleb gytunedig esgor ar dorri rheolau a rheoliadau statudol, ac felly o bosib torri dyletswydd. Dylai unrhyw amrywiadau felly gael eu cofnodi'r ffurfiol a'u cymeradwyo gan neu ar ran y Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol neu Leol.

2.32 Er mwyn cynorthwyo contractwyr a chyflenwyr wrth gyflwyno'r gwaith ar amser, mae'n hollbwysig cadw at derfynau amser cytunedig ar gyfer darparu'r wybodaeth neu'r data y mae ei angen arnynt i wneud y gwaith. Os ceir llithro, er enghraifft oherwydd yr amser sydd ei angen i brosesu ceisiadau swmp pleidleisio drwy'r post funud olaf, bydd agen hysbysu'r contractwyr yn syth.

2.33 Cofnodi pob cam o'r prosesau caffael a chynhyrchu. Yn benodol, cadw cofnod ffurfiol o'r broses gynhyrchu er mwyn gallu dangos yr ymgymerwyd â hi yn unol â'r gyfraith.

[15] Adrannau 6A–6F, PPERA.
[16] Rheoliad 29, Rheoliadau ESE.

2.34 Yn benodol, argymhellir y dylai contractau gynnwys cymalau sy'n caniatáu ar gyfer y mesurau sicrhau ansawdd canlynol, yn ogystal â'r rheiny sydd wedi'u cynnwys o fewn gweithdrefnau'r argraffwr ei hun:

- Dylid cael datgeliad llawn o unrhyw isgontractwyr â'u rôl. Dylai hyn gynnwys mynediad llawn i'r holl isgontractwyr yn ystod y broses gynhyrchu.
- Dylid cynnal llinellau cyfathrebu clir rhwng unrhyw gontractiwr, unrhyw isgontractwyr a'r Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol a Lleol a'u staff.
- Dylai'r holl staff uwch a staff goruchwyliol fydd yn ymwneud â'r broses fynychu sesiwn briffio saith niwrnod o leiaf cyn argraffu a dosbarthu.
- Dylai fod gan y Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol neu Leol a'u henwebeion fynediad bob amser i holl rannau'r broses argraffu, coladu a phecynnu, a dylai eu bod yn gallu cynnal gwiriadau ansawdd ar gyfresi argraffu, coladu a deunyddiau gorffenedig.
- Dylid rhoi i'r swyddog Canlyniadau Rhanbarthol neu Leol broflenni o'r holl eitemau i'w cynnwys yn y pecyn pleidleisio i'w cymeradwyo cyn dechrau argraffu. Dylid darparu'r proflenni yn electronig ac ar ffurf copi caled. Os na fydd y proflenni yn dderbyniol ar unrhyw bwynt yn y broses, dylid paratoi proflenni diwygiedig o fewn nifer penodol o ddiwrnodau, i'w pennu yn y contract.
- Dylid gwirio fersiynau terfynol wedi'u hargraffu bob amser a dylai fod gan Swyddogion Canlyniadau Lleol system yn ei lle i'w caniatáu i fod yn fodlon bod y ddogfennaeth gywir wedi'u chynnwys yn y pecynnau pleidleisio drwy'r post.
- Dylai fod darpariaeth ar gyfer cynhyrchu nifer digonol o becynnau pleidleisio amnewid a dyddiad penodol ar gyfer dosbarthu'r rhain i'r Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol neu Leol.
- Dylai Swyddogion Canlyniadau Lleol sicrhau nad oes cyfathrebu uniongyrchol rhwng y contractwyr a'r Post Brenhinol heb wybodaeth ac ymwneud gan y Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol neu Leol; dylai argraffwyr gyfathrebu gyda'r Swyddog Canlyniadau perthnasol neu eu cynrychiolwyr awdurdodedig (a allai gynnwys y Post Brenhinol ar ddisgresiwn y Swyddog Canlyniadau unigol).
- Dylai contractwyr geisio caniatâd y Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol neu Leol cyn rhyddhau unrhyw becynnau pleidleisio i'r Post Brenhinol a dylent ddilyn y gweithdrefnau trosglwyddo a ragnodwyd gan y Swyddog Canlyniadau. Dylai'r Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol neu Leol neu enwebai fod yn bresennol yn ystod y trosglwyddo.

Dylid dinistrio data'r gofrestr etholiadol a ddelir gan gontractwyr yn dilyn trosglwyddo'r papurau pleidleisio i'r Post Brenhinol. Dylid llofnodi cytundeb ysgrifenedig gan y contractwyr i dderbyn na ellir datgelu gwybodaeth o'r gofrestr etholiadol lawn ar unrhyw adeg, yn cadarnhau na fyddant yn datgelu data i unrhyw barti anawdurdodedig ac y byddant, ar gwblhau'r prosesu, yn dychwelyd unrhyw ddisgiau a chofnodion papur a roddwyd iddynt a dinistrio unrhyw gopïau electronig neu bapur o'r data.

2.35 Os yw'n broblem dod o hyd i gontractiwr addas, yna gellir cysylltu â'r Ffederasiwn Diwydiannau Argraffu Prydeinig (BPIF) am gymorth:

British Printing Industries Federation
Farringdon Point
29–35 Farringdon Road
London EC1M 3JF

Ffôn: 020 7915 8319
www.britishprint.com

Gweithio gyda'r Post Brenhinol

2.36 Cynghorir Swyddogion Canlyniadau Rhanbarthol a Lleol i gysylltu â'u Rheolwr Cyfrif Post Brenhinol cyn gynted â phosib, a sicrhau bod ganddynt gopi diweddar o arweiniad arfer gorau'r Post Brenhinol ar bleidleisio drwy'r post, *Rheoli pleidleisio drwy'r post*.

Mae gwefan y Comisiwn yn darparu dolen i arweiniad arfer gorau y Post Brenhinol ar bleidleisio drwy'r post yn: www.electoralcommission.org.uk/guidance/resources-for-electoral-administrators/european-parliamentary-elections

2.37 Pan yn defnyddio'r Post Brenhinol mae'n bwysig cysylltu â'r Rheolwr Cyfrif yn rheolaidd a chael unrhyw rifau trwydded a rhifau Ateb Busnes cyn gynted â phosib er mwyn osgoi unrhyw oedi ar yr adeg y bydd y pecynnau pleidleisio drwy'r post yn cael eu dosbarthu i etholwyr. Mae hefyd yn bwysig trafod trefniadau ar gyfer casglu pleidleisiau drwy'r post ar gam cynnar.

Rhadbost[17]

2.38 Mae pob plaid wleidyddol gofrestredig ac ymgeisydd unigol sy'n sefyll yn etholiad Senedd Ewrop â hawl i gael tâl post am ddim ar gyfeiriad etholiad sydd i gael ei anfon allan ar draws y rhanbarth etholiadol. Fe gynghorir pleidiau gwleidyddol cofrestredig neu ymgeiswyr unigol sydd eisiau defnyddio'r ddarpariaeth yma i gysylltu â'r Post Brenhinol i wneud trefniadau.

2.39 Mae gofyn i'r Swyddog Canlyniadau Lleol wneud trefniadau i anfon deunydd etholiadol rhadbost gan bleidiau ac ymgeiswyr unigol i etholwyr cofrestredig dienw. I wneud hyn, fe fydd angen defnyddio'r rhestr o etholwyr dienw i gynhyrchu amlenni er mwyn anfon y deunydd i'r etholwyr hyn. Mae rhaid i bob deunydd gydymffurfio â'r manylebion ar gyfer trefniadau rhadbost Y Post Brenhinol, ac felly, efallai y dylid argymell aros i gael cadarnhad fod y deunydd wedi cael ei anfon allan gan Y Post Brenhinol i etholwyr eraill, i wneud yn siŵr ei fod yn cydymffurfio â'r gofynion rhadbost.

[17] Rheoliad 63, Rheoliadau Etholiadau Senedd Ewrop.

3 Cyllid etholiadol

3.1 Darperir arweiniad ar y gorchymyn ffioedd a chostau, yn cynnwys ffurflenni a gweithdrefnau cysylltiedig, gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder a'u cyhoeddi yn www.justice.gov.uk/guidance/european-elections-june-09.htm

3.2 Cyn yr etholiad mae'n bwysig ystyried sut bydd cyfrifon yr etholiad yn cael eu paratoi, er enghraifft a oes gan y feddalwedd rheoli etholiad raglen addas neu a oes angen taenlenni o daliadau. Hefyd, i gynorthwyo â chyfrifo tryloyw, dylai fod rhaniad clir o ddyletswyddau rhwng unrhyw swyddogion yn archebu nwyddau a gwasanaethau a swyddogion yn awdurdodi taliadau.

3.3 Dylid darparu tystiolaeth ddogfennol ddigonol bod costau yn ddilys bob amser wrth wneud hawliad. Dylai Swyddogion Canlyniadau hefyd ddefnyddio eu Harchwilio Mewnol neu graffu annibynnol arall cyn cyflwyno eu hawliadau.

Cyfunedig
Pan fydd swyddogaethau yn gyffredin i'r etholiadau Senedd Ewrop ac unrhyw etholiadau eraill y cyfunir hwy â hwy, bydd angen rhannu'r costau a dylid ceisio arweiniad pellach gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder.

Dylai Swyddogion Canlyniadau yn Lloegr gydag etholiadau Senedd Ewrop a llywodraeth leol cyfun hefyd edrych ar yr adran ar gyllid etholiadol yn rhan B llawlyfr Swyddogion Canlyniadau'r Comisiwn ar gyfer etholiadau llywodraeth leol yn Lloegr a Chymru. Gellir lawrlwytho copïau ychwanegol o wefan y Comisiwn yn: www.electoralcommission.org.uk/guidance/resources-for-electoral-administrators/local-elections/local-government-elections-in-england

4 Mynediad cyfartal

4.1 Mae mynediad cyfartal i etholiadau yn rhan hanfodol o ddemocratiaeth iach ac mae'n angenrheidiol i sicrhau lefelau uchel o gyfranogiad gan bleidleiswyr. Mae felly'n bwysig iawn bod gan yr holl etholwyr yr un cyfle i fwrw eu pleidlais. Pwrpas yr adran hon yw rhoi i Swyddogion Canlyniadau Lleol drosolwg o ofynion deddfwriaethol sy'n cwmpasu hygyrchedd a chynnig arweiniad ar arfer da.

4.2 Dylid ystyried materion mynediad ar gyfer yr holl weithdrefnau etholiadol, wrth gynllunio etholiad, ar ddiwrnod y pleidleisio ei hun ac yn ystod y broses cofrestru etholiadol. Mae'n bwysig bod Swyddogion Canlyniadau Lleol, Swyddogion Cofrestru Etholiadol, gweinyddwyr etholiadol a staff gorsafoedd pleidleisio yn defnyddio eu barn a'u synnwyr cyffredin eu hunain wrth ddatrys materion mynediad. Gyda'r amrywiaeth o awdurdodau lleol a'r mathau o faterion mynediad y deuir ar eu traws, mae'n anodd iawn darparu un arweiniad fydd yn addas i bawb.

Cynllunio ar gyfer mynediad

4.3 Mae blaengynllunio yn hanfodol er mwyn cyflawni'r hygyrchedd gorau posib. Dylai hyn gynnwys nid yn unig fynediad i orsafoedd pleidleisio a lleoliad y cyfrif, ond hefyd mynediad i'r broses etholiadol gyfan, gwybodaeth i bleidleiswyr a diwrnod y pleidleisio.

4.4 Bydd adolygu'r etholiad diwethaf yn cynnig pwyntiau dysgu i'w bwydo i mewn i gynllunio yn y dyfodol. Gallai fod y digwyddodd mater mynediad nas ragwelwyd ar ddiwrnod y pleidleisio. Os felly, dylid cymryd camau i'w atal rhag digwydd eto yn y dyfodol.

4.5 Mewn adolygiad o'r fath, gallai'r Swyddog Canlyniadau Lleol ddymuno ystyried y pwyntiau canlynol:

- Dylai unrhyw adroddiadau a ddychwelir gan Swyddogion Llywyddu gael eu hystyried a dylid nodi unrhyw broblemau.
- Mae hefyd yn bwysig ystyried pa arferion oedd yn llwyddiannus a lle y gellir defnyddio'r rhain mewn mannau eraill.
- Gall adborth gan etholwyr amlygu unrhyw faterion a allai fod wedi digwydd. Gellid gosod holiaduron gyda rhestr wirio osodedig mewn gorsafoedd pleidleisio at ddefnydd etholwyr.
- Gallai adborth gan ymgeiswyr, asiantau a phleidiau gwleidyddol hefyd helpu i amlygu materion neu enghreifftiau o arfer da. Mae ymgeiswyr, asiantau a'u cefnogwyr yn cael llawer o gyswllt, a hwnnw'n gyswllt amrywiol gydag etholwyr drwy gydol cyfnod yr etholiad a gallant dderbyn adborth y gallant roi i'r Swyddog Canlyniadau a thîm yr etholiad yn ddiweddarach.
- Gellid ceisio adborth gan fudiadau lleol o bobl anabl, pobl hŷn, grwpiau ethnig lleiafrifol a swyddogion mynediad y cyngor hefyd.

4.6 Dylid llunio cynllun gweithredu i oresgyn rhwystrau i fynediad mewn pryd ar gyfer yr etholiad nesaf.

Deddfwriaeth

Deddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd 1995

4.7 Nid yw gweithdrefnau etholiadol yn cael eu nodi'n benodol yn y Ddeddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd 1995 (DDA). Mae'r Comisiwn, fodd bynnag, yn cefnogi'r farn fod y broses bleidleisio yn wasanaeth cyhoeddus. Yn ei ymateb i *Voting for change*, dywedodd Llywodraeth y DU, 'Rydym o'r farn, yn yr un modd â'r Comisiwn Etholiadol, fod Deddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd 1995 yn gymwys i ddarparu'r cyfleusterau ar gyfer pleidleisio.'[18] O ganlyniad, ein barn yw na ddylai Swyddogion Canlyniadau wahaniaethu yn erbyn pobl anabl drwy ddarparu gwaeth gwasanaeth i berson anabl nag y byddent i berson nad yw'n anabl.

4.8 Ers Rhagfyr 1996, mae wedi bod yn anghyfreithlon i ddarparwr gwasanaeth wahaniaethu yn erbyn person anabl. Mae gwahaniaethu yn cynnwys:

- gwrthod darparu unrhyw wasanaeth i bobl anabl y mae'n ei ddarparu i bobl nad ydynt yn anabl
- darparu gwaeth safon o wasanaeth i bobl anabl nag y mae'n ei ddarparu i bobl nad ydynt yn anabl

4.9 Ers 1 Hydref 1999, mae darparwyr gwasanaeth wedi gorfod newid arferion, polisïau a gweithdrefnau sy'n ei wneud y amhosib neu'r afresymol o anodd i bobl anabl ddefnyddio gwasanaeth. Bydd yr hyn sy'n 'rhesymol' yn cael ei benderfynu gan y llysoedd, ond tan fod corff o gyfraith achosion, bydd hyn yn anodd ei ddiffinio.

4.10 Ers 1 Hydref 2004, mae darparwyr gwasanaeth wedi gorfod gwneud addasiadau rhesymol i nodweddion ffisegol eu hadeiladau i oresgyn rhwystrau ffisegol i fynediad. Mae hyn yn cwmpasu llawer o'r adeiladau a ddefnyddir fel gorsafoedd pleidleisio, gan eu bod yn cael eu defnyddio ar gyfer amrywiaeth eang o swyddogaethau eraill. Mae'r darpariaethau yn Rhan III DGA 1995, sy'n cwmpasu mynediad i nwyddau a gwasanaethau, yn gymwys i wasanaethau etholiadol.

4.11 Mae DGA 1995 wedi ei diwygio bellach gan Ddeddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd 2005, sy'n gosod dyletswydd ar yr holl awdurdodau sector cyhoeddus i hyrwyddo cydraddoldeb anabledd, a'i wneud yn ofynnol i gynghorau gyhoeddi cynllun cydraddoldeb anabledd erbyn 4 Rhagfyr 2006.

[18] *Ymateb y Llywodraeth i adroddiad y Comisiwn Etholiadol: Voting for change – An electoral law modernisation programme*, www.dca.gov.uk/elections/govresp-vfc-cm6426.pdf

4.12 Mae'r ddyletswydd cydraddoldeb anabledd, ddaeth i rym ym mis Rhagfyr 2006, yn gosod dyletswydd ar yr holl awdurdodau cyhoeddus, wrth gynnal eu swyddogaethau, i ystyried yr angen i:

- hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng personau anabl a phersonau eraill
- dileu gwahaniaethu sy'n anghyfreithlon o dan y Ddeddf
- dileu aflonyddu personau anabl sy'n gysylltiedig â'u hanableddau
- hyrwyddo agweddau positif tuag at bersonau anabl
- annog cyfranogiad gan bersonau anabl mewn bywyd cyhoeddus
- cymryd camau i ystyried anableddau pobl anabl, hyd yn oed pan mae hyn yn golygu trin personau anabl yn fwy ffafriol na phersonau eraill

4.13 Dylai Swyddogion Canlyniadau Rhanbarthol a Lleol ystyried cynlluniau cydraddoldeb anabledd y cynghorau yn eu hardal gyfrif leol pan yn ymdrin â'r materion hyn.

Deddf Cysylltiadau Hiliol 1976

4.14 Mae'r Ddeddf Cysylltiadau Hiliol (DCH) 1976 yn rhoi i awdurdodau lleol amrywiol ddyletswyddau mewn perthynas â chydraddoldeb hiliol. Y ddyletswydd gyffredinol a nodir yn Adran 71(1) y Ddeddf a'r Cod Ymarfer ar y Ddyletswydd i Hyrwyddo Cydraddoldeb Hiliol statudol yw i ystyried yn briodol y tri amcan canlynol:[19]

- dileu gwahaniaethu hiliol anghyfreithlon
- hyrwyddo cyfle cyfartal
- hyrwyddo perthnasoedd da rhwng pobl o wahanol grwpiau hil

4.15 Mae'n ofynnol ar gynghorau gyhoeddi cynllun cydraddoldeb hiliol. Mae hwn yn rhestru'r swyddogaethau a'r polisïau a aseswyd fel rhai sy'n berthnasol i hyrwyddo cydraddoldeb hiliol. Mae'r cynllun hefyd yn cynnwys esboniad o'r trefniadau ar gyfer monitor polisïau a gwasanaethau, ymgynghori arnynt ac asesu eu heffaith ar gydraddoldeb hiliol, ac ar gyfer monitro'r gweithlu ac arferion cyflogaeth allweddol. Dylai Swyddogion Canlyniadau Rhanbarthol a Lleol ystyried cynlluniau cydraddoldeb hiliol y cynghorau yn eu hardal gyfrif leol pan yn ymdrin â'r materion hyn.

Laith

4.16 Mae papurau enwebu a phapurau pleidleisio wedi'u rhagnodi a dylid eu cynhyrchu yn Saesneg yn unig, neud yn Saesneg ac yn Gymraeg yng Nghymru.[20]

4.17 Gellir cyfieithu'r holl ddogfennau eraill y mae'n ofynnol eu harddangos neu eu darparu ar gyfer pleidleiswyr at ddibenion yr etholiad, os yw'r Swyddog Canlyniadau Lleol yn teimlo ei fod yn briodol, i:[21]

[19] Comisiwn dros Gydraddoldeb Hiliol, Mai 2002.
[20] Rheoliad 122A, Rheoliadau ESE.
[21] Rheoliad 122A Rheoliadau ESE.

- Braille
- ieithoedd ac eithrio'r Saesneg, ac yng Nghymru, y Gymraeg
- cynrychioliadau graffigol o'r wybodaeth yn y dogfennau
- dulliau eraill o sicrhau bod yr wybodaeth yn y dogfennau yn hygyrch i bersonau na fyddai ganddynt fel arall fynediad rhesymol i'r wybodaeth (yn cynnwys sain)

Materion cyffredinol – arfer da

4.18 Wrth ystyried mynediad i weithdrefnau etholiadol, mae'n hanfodol meddwl am ddemograffeg eich ardal eich hun ac anghenion mynediad pleidleiswyr. Er enghraifft, a oes niferoedd uchel o bleidleiswyr hŷn? A oes grwpiau penodol o etholwyr o leiafrifoedd ethnig, ac os felly, pa ieithoedd ydynt yn eu siarad? Mae cymunedau yn amrywio'n sylweddol ar draws y DU, gyda gwahanol grwpiau o etholwyr lleiafrifoedd ethnig a phroffiliau oed. Mae hefyd yn bwysig ystyried daearyddiaeth yr ardal, yn cynnwys a yw'n ddinesig neu'n wledig. Mae'n bwysig iawn bod unrhyw newidiadau ynghylch materion mynediad yn fuddiol i bawb, yn hytrach nag ychydig ar draul eraill. Dylid ystyried materion mynediad yng nghyd-destun yr etholiad yn gyffredinol.

4.19 Wrth ystyried materion mynediad, mae bob amser yn fanteisiol siarad â mudiadau lleol o bobl anabl, pobl hŷn a grwpiau lleiafrifoedd ethnig. Gallai fod ganddynt brofiad uniongyrchol o weithdrefnau etholiadol ac efallai y gallant awgrymu lleoliadau gwahanol ar gyfer gorsafoedd pleidleisio neu ffyrdd y gellir gwella llenyddiaeth etholiadol.

4.20 Mae'n bwysig fod dulliau ar gael er mwyn i etholwyr gysylltu â staff etholiadol yn uniongyrchol er mwyn iddynt allu cyflwyno eu barn i'w hystyried. Gall hefyd fod yn ddefnyddiol siarad â fforymau cyflogeion anabl, lle maent yn bodoli mewn ardaloedd awdurdodau lleol unigol. Gellir cael cyngor proffesiynol gan archwiliwr mynediad.

Mae arweiniad ar hyrwyddo materion mynediad a gwneud gwybodaeth yn hygyrch wedi'i gynnwys yn Adran 9, 'Cyhoeddusrwydd a'r cyfryngau'.

Arweiniad a chyngor

4.21 Mae arweiniad a chyngor ar faterion mynediad ar gael gan swyddogion mynediad y cyngor am amrywiaeth o fudiadau, y rhestrir rhai ohonynt isod. Yn ogystal, gallai grwpiau lleol ar gyfer pobl anabl a'r rheiny o gymunedau lleiafrifoedd ethnig allu cynnig cyngor a chymorth.

Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol

4.22 Disodlodd y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol y Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol, y Comisiwn Hawliau Anabledd a'r Comisiwn Cyfle Cyfartal. Fe'i sefydlwyd o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2006, ac mae'n gorff anadrannol a ariennir yn gyhoeddus sy'n hyrwyddo ymwybyddiaeth a

deallltwriaeth am hawliau dynol ac yn annog arfer da gan awdurdodau cyhoeddus. Mae'n dwyn ynghyd waith y comisiynau blaenorol ac yn cwmpasu Lloegr, yr Alban a Chymru. Am fwy o wybodaeth, ewch i: www.equalityhumanrights.com

Ymgyrch Saesneg Clir

4.23 Mae'r Ymgyrch Saesneg Clir yn grŵp pwyso annibynnol y mae ei nod yw i wybodaeth gyhoeddus gael ei hysgrifennu mewn Saesneg clir - hynny yw, iaith yn gall y gynulleidfa darged ei deall a gweithredu arni yn dilyn un darlleniad. Mae'r Ymgyrch yn cynnig gwasanaethau golygu yn ogystal â'r Nod Crisial ar gyfer dogfennau cymeradwy. Mae mwy o wybodaeth ar gael yn: www.plainenglish.co.uk

Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol y Byddar (RNID)

4.24 Mae'r RNID yn cynrychioli pobl fyddar a thrwm eu clyw yn y DU. Gallant ddarparu gwybodaeth ar gyfathrebu â phobl fyddar. Mae mwy o wybodaeth ar gael yn: www.rnid.org.uk

Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol y Deillion (RNIB)

4.25 Mae'r RNIB yn cynnig gwybodaeth, cefnogaeth a chyngor i bobl yn y DU gyda namau ar y golwg. Mae'r RNIB wedi cynhyrchu canllawiau argraffu clir i wella mynediad i bobl ddall â phobl sy'n gweld yn rhannol.

4.26 Gall yr RNIB gynnig arweiniad hefyd ar gynhyrchu recordiadau ar dâp, Braille, e-destun a gwefannau hygyrch. Mae gwybodaeth bellach ar y materion hyn ar gael yn: www.rnib.org.uk

Scope Cwmpas Cymru

4.27 Mudiad anabledd yw Scope sy'n gweithio ar draws Lloegr a Chymru. Yng Nghymru, fe'i adwaenir fel Cwmpas Cymru. Ei nod yw i bobl anabledd gyflawni cydraddoldeb. Mae Scope yn rhedeg yr ymgyrch Polls Apart i wneud etholiadau yn hygyrch i bleidleiswyr anabl ac mae adroddiadau wedi cael eu cynhyrchu ar holl etholiadau cyffredinol Seneddol y DU ers 1992. Mae Scope hefyd wedi cynhyrchu ystod o arweiniad ar gyfer staff sy'n ymwneud ag etholiadau. Mae mwy o wybodaeth ar gael yn: www.scope.org.uk

Capability Scotland

4.28 Mae Capability Scotland yn gweithio gydag awdurdodau lleol a phobl anabl i wella mynediad i etholiadau yn yr Alban ac yn annog pobl anabl i bleidleisio. Mae gwybodaeth bellach ar gael yn: www.capability-scotland.org.uk

Mencap

4.29 Elusen yn y DU yw Mencap sy'n ymgyrchu ar gyfer hawliau cyfartal i blant ac oedolion gydag anabledd dysgu. Mae profiad ganddynt hefyd o

gynhyrchu llenyddiaeth hawdd ei ddarllen. Mae eu gwefan, www.mencap.org.uk, yn rhoi mwy o fanylion.

Materion cofrestru etholiadol

4.30 Mae gallu cofrestru fel etholwr yn sylfaenol i'r holl broses etholiadol. Gall pobl brofi anawsterau yn cwblhau ffurflenni cofrestru etholiadol am amrywiaeth o resymau. Efallai nad ydynt yn gallu gweld yr ysgrifen ar y ffurflenni neu nad ydynt yn deall y ffurflen. Mae hyn yn cynnwys pobl â lefelau isel o lythrennedd, yn ogystal â'r rheiny nad ydynt yn siarad neu na fedrant ddarllen Saesneg. Gallai fod angen help ychwanegol ar y bobl hyn i gwblhau ffurflenni neu gael arweiniad wedi'i gynhyrchu mewn fformat arall, os yn bosib.

Mae'r Comisiwn wedi cynhyrchu canllaw darllen-hawdd i bleidleisio, sy'n cynnwys adran ar gofrestru. Mae gwahanol becynnau ar gael ar gyfer Lloegr, yr Alban a Chymru. Gellir gweld manylion archebu a fersiwn y gellir ei lawrlwytho o'r canllawiau o wefan Do Politics y Comisiwn yn: www.dopolitics.org.uk

Ffurflenni cofrestru

4.31 Lle y bo'n bosib, dylai'r holl ffurflenni cofrestru:

- fod mewn Saesneg clir, cywir, ac yng Nghymru, yn Gymraeg
- rhoi manylion llinell gymorth y gall pobl ei ffonio os bydd angen cymorth arnynt - mae hefyd yn ddefnyddiol roi rhif ffôn testun, cyfeiriad gwefan a chyfeiriad e-bost
- cynnig help gyda chwblhau'r ffurflen gofrestru
- gael eu hargraffu mewn ffont clir gan ddefnyddio isafswm maint ffont o 12 pwynt lle y bo'n bosib, er bod 14 pwynt yn fwy hygyrch
- o ddewis gael eu hargraffu mewn inc du ar gefndir gwyn
- bod ar gael mewn fformatau eraill ar gais

4.32 Gall fod yn ddefnyddiol darparu nodiadau arweiniad yn egluro sut i gwblhau'r ffurflenni. Gall hyn fod yn ddefnyddiol i'r holl etholwyr a gallai ei wneud yn bosib lleihau swm y testun ar y ffurflen ei hun. Dylai'r arweiniad gael ei ysgrifennu mewn Saesneg clir a dylai gynnwys symbolau a lluniau. Bydd hyn yn helpu'r holl etholwyr, yn cynnwys y rheiny â lefelau isel o lythrennedd neu sydd â dealltwriaeth gyfyngedig o'r broses.

4.33 Dylai fformatau eraill fod ar gael, a dylid hysbysebu'r rhan ar y ffurflen. Gall Swyddogion Cofrestru Etholiadol hefyd gynnig help i'r etholwyr hynny sy'n profi anawsterau wrth gwblhau ffurflenni cofrestru etholiadol.

Mae'r Comisiwn wedi cynhyrchu ffurflenni ar gyfer cofrestru treigl mewn amrywiaeth o ieithoedd a fformatau. Mae'r rhain ar gael fel PDFau y gellir eu lawrlwytho ar wefan y Comisiwn, www.fymhleidlaisi.co.uk, a gellir eu harchebu hefyd fel copïau caled.

Am wybodaeth bellach ar wneud cofrestru yn hygyrch, gweler hefyd Rhan Ff ein *Managing electoral registration in Great Britain: guidance for Electoral Registration Officers*. Gellir lawrlwytho'r darn perthnasol o: www.electoralcommission.org.uk/guidance/resources-for-electoral-administrators/electoral-registration/managing-electoral-registration-services

Mynediad i'r bleidlais

Cardiau pleidleisio

4.34 Cardiau pleidleisio yw un o'r dulliau cyfathrebu pwysicaf ar gyfer cyfathrebu gydag etholwyr. Mewn rhai achosion, efallai na fydd etholwyr yn ymwybodol bod etholiad yn digwydd tan iddynt dderbyn cerdyn pleidleisio. Oherwydd hyn, mae'n bwysig bod cardiau pleidleisio yn hawdd eu darllen, tra'n cynnwys cymaint o wybodaeth ag y bo'n bosib.

4.35 Mae bellach yn angenrheidiol cynhyrchu cardiau pleidleisio nid yn unig ar gyfer y rheiny y mae hawl ganddynt bleidleisio yn bersonol mewn gorsaf bleidleisio ond hefyd i'r rheiny y mae hawl ganddynt bleidleisio drwy'r post neu drwy ddirprwy.

4.36 Er bod cynnwys cardiau pleidleisio yn rhagnodedig, mae'r canlynol yn enghreifftiau o arfer da y gallech ddymuno eu hystyried wrth gynhyrchu cardiau pleidleisio:[22]

- Dylid cynhyrchu cardiau pleidleisio mewn print clir, mawr, gan ddefnyddio isafswm maint ffont 12 pwynt.
- Cynnwys rhif llinell gymorth a chyfeiriad e-bost y gall bobl eu defnyddio os oes unrhyw ymholiadau ganddynt.
- Gall mapiau yn dangos lleoliad yr orsaf bleidleisio fod yn ddefnyddiol ar gardiau pleidleisio i etholwyr neu ddirprwyon â'r hawl i bleidleisio yn yr orsaf bleidleisio, yn enwedig os yw'r lleoliad wedi newid ers yr etholiad diwethaf, ond ni ddylai unrhyw fap fod mor fach ei fod yn anodd i etholwyr ei ddarllen.
- Cynnwys manylion mynediad ar gardiau pleidleisio i etholwyr neu ddirprwyon â'r hawl i bleidleisio yn bersonol yn yr orsaf bleidleisio (fel amlygu argaeledd y ddyfais ar gyfer galluogi pleidleiswyr sy'n ddall neu'n gweld yn rhannol bleidleisio heb gymorth neu hysbysu pobl y bydd ramp dros dro yn ei le), gan ystyried maint y cerdyn pleidleisio i'w ddefnyddio.

[22] Rheol 31, Rheolau ESE.

Pleidleisio drwy'r post a phleidleisio drwy ddirprwy

4.37 Er bod llawer o bobl, yn cynnwys pobl anabl, yn ffafrio pleidleisio yn bersonol, mae eraill yn ei chael yn fwy cyfleus i bleidleisio drwy'r post neu benodi dirprwy o bleidleisio ar eu rhan. Mae pleidleisio drwy'r post ar gael ar gais a gall unrhyw un ddewis pleidleisio drwy'r post heb yr angen i roi rheswm dros ddewis pleidleisio yn y ffordd hon.

4.38 At hynny, mae darpariaethau deddfwriaethol yn caniatáu i bobl sy'n dod yn anabl rhwng y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau newydd i bleidleisio drwy ddirprwy a 5pm ar ddiwrnod yr etholiad wneud cais am ddirprwy brys ar sail anabledd.

4.39 Dylai fod cyhoeddusrwydd digonol ynghylch pleidleisio drwy'r post a thrwy ddirprwy i wneud pobl yn ymwybodol o'r darpariaethau hyn a rhoi gwybod i bobl sut i wneud cais a'r dyddiadau cau ar gyfer gwneud hynny. Dylai ffurflenni cais gael eu gosod mewn amrywiaeth o leoedd cyhoeddus er mwyn i bobl gael mynediad hawdd iddynt. Gellid cynhyrchu ceisiadau pleidleisio absennol hefyd mewn amrywiaeth o fformatau er mwyn ei wneud yn haws i bobl gwblhau'r ffurflenni yn llwyddiannus.

4.40 Mae'r Comisiwn Etholiadol yn cynhyrchu ffurflenni cais pleidleisio drwy'r post mewn nifer o ieithoedd a fformatau, yn cynnwys tâp sain, Braille a phrint bras. Mae'r holl daflenni ieithoedd tramor yn ddwyieithog. Mae'r taflenni hyn ar gael i'w harchebu am ddim ac maent hefyd ar gael fel PDFau y gellir eu lawrlwytho ar wefan y Comisiwn.

Lleoedd pleidleisio a gorsafoedd pleidleisio

4.41 Oni bai y ceir amgylchiadau arbennig, mae'n rhaid i leoedd pleidleisio ar gyfer yr etholiad Senedd Ewrop fod yr un rhai â'r rheiny a ddynodir ar gyfer etholiadau Seneddol y DU.[23] Mae Deddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983 yn gosod rhwymedigaeth ar gynghorau, cyn belled ag y bo'n rhesymol ac yn ymarferol, ddynodi fel lleoedd pleidleisio dim ond y lleoedd hynny sy'n hygyrch i bobl anabl ac i roi i'r holl etholwyr yn eu hardal gyfleusterau mor rhesymol ag sy'n ymarferol i bleidleisio yn yr amgylchiadau.[24] Pan yn cynnal adolygiadau o leoedd pleidleisio, mae 'n ofynnol ar gynghorau geisio barn pobl sydd ag arbenigedd penodol mewn perthynas â mynediad i eiddo neu gyfleusterau i bobl â gwahanol ffurfiau ar anabledd.



Rhoddir arweiniad ar hygyrchedd mewn gorsafoedd pleidleisio yn Adran 6, 'Lleoliadau ar gyfer gweithgareddau etholiadau'. Mae rhestr wirio ar faterion hygyrchedd ar gyfer gorsafoedd pleidleisio wedi'i chynnwys yn ein *Polling station handbook*, y gellir ei archebu ar ffurf copi caled neu ei lawrlwytho o wefan y Comisiwn.

[23] Rheoliad 8(2), Rheoliadau ESE.
[24] Adran 18B, RPA 1983.

Mynediad i ymgeiswyr, asiantau, cynrychiolwyr y Comisiwn ac arsylwyr

4.42 Yn ogystal â phleidleiswyr, gallai fod anghenion mynediad penodol gan ymgeiswyr, asiantau, cynrychiolwyr y Comisiwn Etholiadol ac arsylwyr achrededig mewn perthynas â'r etholiad. Gallai fod angen arnynt unrhyw arweiniad a gynhyrchir mewn print mawr neu fformat arall, fel Braille neu audio, neu mewn iaith ac eithrio'r Saesneg.

5 Materion cofrestru etholiadol

5.1 Dylid darllen yr arweiniad hwn ochr yn ochr â *Managing electoral registration services in Great Britain* y Comisiwn, a luniwyd i gynorthwyo Swyddogion Cofrestru Etholiadol gyda phwyntiau penodol ynghylch arfer a gweithdrefn ar gofrestru etholiadol. Mae'r adran hon yn atodol i'r llawlyfr hwnnw ac yn amlygu materion y bydd angen eu hystyried yn benodol cyn etholiad Senedd Ewrop.

Dinasyddion aelod wladwriaethau'r UE

5.2 Mae'n rhaid i ddinasyddion aelod wladwriaethau'r UE sy'n dymuno cofrestru fel etholwyr Senedd Ewrop gwblhau cais ar wahân ynghyd â datganiad, y mae'n rhaid iddo ddatgan y byddant yn pleidleidio yn y DU yn unig mewn unrhyw etholiad Senedd Ewrop yn ystod cyfnod dilys 12 mis y datganiad.[25] Gall dinasyddion yr UE bleidleisio unwaith yn unig ac mewn un aelod wladwriaeth yn unig mewn etholiad Senedd Ewrop, a byddai gwneud fel arall yn drosedd yn dwyn cosb ar dderbyn euogfarn o garchar am hyd at chwe mis a/neu ddirwy.[26]

5.3 Dylai'r Swyddog Cofrestru Etholiadol ddosbarthu ceisiadau a datganiadau (y cyfeirir atynt yn gyffredin fel 'UC1') i'r holl etholwyr sydd wedi nodi ar y ffurflen ganfasio flynyddol neu'r cais cofrestru treigl eu bod yn ddinesydd aelod wladwriaeth yr UE.

5.4 Mae'r Comisiwn yn argymell, lle bynnag y darperir gwybodaeth am gofrestru, bod y Swyddog Cofrestru Etholiadol yn ei wneud yn glir bod angen i ddinasyddion aelod wladwriaethau'r UE lenwi ffurflen UC1 os ydynt am bleidleisio yn yr etholiadau Senedd Ewrop yn y DU. Gallai'r Swyddog Cofrestru Etholiadol hefyd ddefnyddio eu gwefan i dynnu sylw dinasyddion aelod wladwriaethau'r UE at y gofyniad hwn.

5.5 Yn y cyfnod yn arwain at y terfyn amser ar gyfer cofrestru i bleidleisio yn yr etholiad, gallai'r Swyddog Cofrestru Etholiadol hefyd anfon allan ffurflenni UC1 ochr yn ochr â'r holl ffurflenni cofrestru treigl sy'n cael eu hanfon allan. Fel arall, os bydd person yn ffonio'r Swyddfa Cofrestru Etholiadol yn gofyn am ffurflen cofrestru treigl yn ystod y cyfnod hwnnw, gellid cyfarwyddo'r staff i ofyn bob tro beth yw cenedl y person hwnnw (a chenedligrwydd holl aelodau eraill eu haelwyd) i bennu a oes angen anfon allan UC1 ochr yn ochr â'r ffurflen cofrestru treigl.

[25] Rheoliad 6, Rheoliadau (Etholfraint) Ewropeaidd 2001.
[26] Adran 9, Deddf ESE 2002; Rheoliad 7, Rheoliadau Ewropeaidd (Etholfraint) 2001; Adran 13D RPA 1983.

Mae'r Comisiwn wedi cynhyrchu ffurflenni cais ar gyfer cofrestru i bleidleisio mewn etholiadau Senedd Ewrop (UC1) mewn print mawr a nifer o ieithoedd Ewropeaidd (Ffrangeg, Latfieg, Lithwaneg, Pwyleg, Portwgeeg a Sbaeneg). Gellir lawrlwytho'r ffurflenni hyn o wefan y Comisiwn: www.electoralcommission.org.uk/guidance/resources-for-electoral-administrators/electoral-registration/forms

5.6 Dylid ymdrin â cheisiadau a datganiadau a ddychwelir yn yr un modd ag unrhyw gais arall ac mae'n rhaid iddynt gwrdd â'r terfynau amser cofrestru. Er mai penderfyniad dinasyddion aelod wladwriaethau'r DU ydyw a ydynt am gofrestru i bleidleisio mewn etholiadau Senedd Ewrop yn y DU ai peidio, gallai Swyddogion Cofrestru Etholiadol ddymuno ystyried anfon llythyrau atgoffa i etholwyr awdurdodau lleol sy'n ddinasyddion yr UE nad ydynt wedi dychwelyd y ffurflen UC 1 erbyn diwrnod penodol yn agos at y dyddiad cau ar gyfer cofrestru.

5.7 Bydd enwau etholwyr sy'n dychwelyd datganiad wedi'i gwblhau yn cael eu cynnwys yn y gofrestr etholwyr gyda'r rhagddodiad 'K' yn hytrach na'r llythyren 'G', sy'n dynodi bod y person wedi cael eu hychwanegu at y gofrestr o etholwyr Senedd Ewrop. Dylai'r newid hwn o 'G' i 'K' gael ei adlewyrchu yn y diweddariad nesaf i'r gofrestr.

Darperir manylion pellach am nodau etholfraint yn *Handbook for polling station staff – supporting European Parliamentary elections in Great Britain* ac yn Rhan B y llawlyfr, *Managing electoral registration in Great Britain*.

5.8 Mae cais person i gofrestru i bleidleisio fel etholwr mewn etholiad Senedd Ewrop yn effeithiol am gyfnod o 12 mis o'r dyddiad y mae'r cofnod yn y gofrestr yn dod i rym, neu tan:[27]

- mae'r dinesydd yn gwneud cais i gael ei enw wedi'i dynnu o'r gofrestr etholwyr, neu
- gwneir cais arall gan y dinesydd mewn perthynas â chyfeiriad cymwys gwahanol, neu
- caiff y cais ei ganslo gan yr etholwr, y gellir ei wneud ar unrhyw adeg, neu
- derbynnir hysbysiad gan yr Ysgrifennydd Gwladol bod gwybodaeth wedi'i derbyn gan aelod wladwriaeth yn nodi bod y dinesydd wedi colli ei hawl i bleidleisio

[27] Rheoliad 10, Rheoliadau (Etholfraint) Ewrop 2001.

Gellir cael mwy o wybodaeth ac arweiniad ar gofrestru yn Rhannau D ac Dd llawlyfr y Comisiwn, *Managing electoral registration in Great Britain: guidance for Electoral Registration Officers*. Gellir lawrlwytho hwn o wefan y Comisiwn: www.electoralcommission.org.uk/guidance/resources-for-electoral-administrators/electoral-registration/managing-electoral-registration-services

Gwybodaeth i'r Ysgrifennydd Gwladol

5.9 Bydd gofyn i Swyddogion Cofrestru Etholiadol anfon gwybodaeth ar ddinasyddion aelod wladwriaethau'r UE a gofrestrwyd yn eu hardaloedd i wledydd eraill, ac yn eu tro dylent dderbyn gwybodaeth gan wledydd eraill yr UE.

5.10 Bydd unrhyw gyfarwyddeb ac arweiniad yn ymwneud â'r rhannu gwybodaeth hwn yn dod gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder, a dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau cysylltiedig â'r broses hon atynt hwy.

Am fwy o wybodaeth, e-bostiwch Paul Brunton, Uwch Ymgynghorydd Polisi, MoJ, yn paul.brunton@justice.gsi.gov.uk, neu ffoniwch 020 3334 3778, neu ysgrifennwch at:

Election and Democracy Division
Ministry of Justice
7th Floor
102 Petty France
London SW1H 9AJ

6 Lleoliadau ar gyfer gweithgareddau'r etholiad

6.1 Nid yw dod o hyd i leoliadau digonol a phriodol ar gyfer gweithgareddau etholiad bob amser yn syml. Dylai'r adolygiad o etholiadau blaenorol gynnwys rhoi ystyriaeth i'r holl leoliadau o'r fath.

6.2 Mae'n syniad da cysylltu â rheolwyr yr holl leoliadau a ddefnyddir fel gorsafoedd pleidleisio a lleoliadau cyfrif chwe mis o leiaf cyn dyddiad yr etholiad i'w hysbysu am yr etholiad ac i wneud archebion dros dro. Pan yn cysylltu â rheolwyr lleoliadau, mae'n werth chweil gofyn iddynt gwblhau pro forma yn cadarnhau argaeledd y lleoliad, manylion gofalwr/cyswllt a chost, a darparu amlen ragdaledig ar gyfer ei dychwelyd.

6.3 Dylai'r gweithgaredd hwn, o'i wneud ar gam cynnar yn y broses gynllunio, amlygu lle nad yw lleoliadau ar gael bellach neu lle nad ydynt yn addas. Bydd hyn yn caniatáu digon o amser i weithredu ar yr wybodaeth ac i nodi datrysiadau.

Briffiadau

6.4 Mae'n arfer da trefnu cyfarfod gyda chynrychiolwyr pleidiau gwleidyddol ac unrhyw ymgeiswyr unigol posib eraill a'u hasiantau, os ydynt yn hysbys, cyn dechrau'r broses etholiadol, i roi iddynt wybodaeth am yr etholiadau. Dylid cynnal briffiadau o'r fath mewn lleoliadau hygyrch.

Lleoedd pleidleisio a gorsafoedd pleidleisio

6.5 Cyfrifoldeb y cyngor perthnasol yn dynodi lleoedd pleidleisio o fewn eu hardal a pharhau i'w hadolygu.[28] Dylai adolygiad o ddosbarthiadau pleidleisio a lleoedd pleidleisio fod wedi digwydd yn 2007 a dylid ei gynnal bob pedair blynedd o leiaf o hynny ymlaen.[29] Gellir cynnal adolygiadau ar unrhyw adeg a gallai rhai cynghorau ddymuno cynnal eu hadolygiad nesaf cyn 2011. Wrth ymgymryd ag adolygiad, bydd yn ofynnol ar gynghorau geisio barn bobl sydd ag arbenigedd penodol mewn perthynas â mynediad i eiddo neu gyfleusterau i bobl â gwahanol fathau o anabledd. Wrth ddynodi lleoedd pleidleisio, mae'n rhaid i'r cyngor felly ystyried hygyrchedd i bleidleiswyr anabl.

6.6 Er mai cyfrifoldeb y cyngor perthnasol yw dynodi lleoedd pleidleisio a pharhau i'w hadolygu,[30] cyfrifoldeb y Swyddog Canlyniadau Lleol yw darparu nifer digonol o orsafoedd pleidleisio o fewn y lleoedd pleidleisio dynodedig.[31]

6.7 Gall dynodi lleoliadau ar gyfer gorsafoedd pleidleisio fod yn ymarfer anodd iawn, oherwydd, ar adegau, efallai na fydd eiddo addas o fewn y dosbarth pleidleisio.

[28] Adran 18A, RPA 1983.
[29] Adran 18C, RPA 1983.
[30] Adran 18A, RPA 1983.
[31] Rheol 29, Rheoliadau ESE.

6.8 Dylai Swyddogion Canlyniadau Lleol weithio'n agos â phobl ag arbenigedd penodol mewn perthynas â mynediad i eiddo neu gyfleusterau ar gyfer pobl anabl. Dylent fod yn gallu dangos bod asesiad cywir wedi cael ei gynnal o'r holl orsafoedd pleidleisio i'w defnyddio yn yr etholiad, a, lle mae problemau mynediad yn bodoli, dylid cadw tystiolaeth ddogfennol o unrhyw gamau a gymerwyd.

Hygyrchedd mewn gorsafoedd pleidleisio

6.9 Er gwaethaf y cynnydd mewn pleidleisio drwy'r post, mae mwyafrif yr etholwyr yn dal i bleidleisio yn bersonol mewn gorsafoedd pleidleisio. Felly, un o'r agweddau pwysicaf ar fynediad cyfartal yw sicrhau bod gorsafoedd pleidleisio mor hygyrch â phosib.

6.10 Yn ddelfrydol, bydd gan Swyddogion Canlyniadau Lleol ddewis o ystod o adeiladau cwbl hygyrch, wedi'u lleoli'n gyfleus ar gyfer etholwyr yn yr ardal, gyda pherchnogion yn fodlon eu llogi i'w defnyddio fel gorsafoedd pleidleisio am gost isel. Yn anffodus, mewn gwirionedd nid dyma'r sefyllfa yn aml, ac mewn llawer o ardaloedd, ychydig iawn o ddewis sydd ar gael. Yn yr un modd, nid yw'n ddymunol cau niferoedd uchel o orsafoedd pleidleisio ac amddifadu amddifadu etholwyr o leoedd pleidleisio lleol cyfleus oherwydd bod problemau mynediad.

6.11 Fodd bynnag, mewn nifer o ardaloedd, gwnaed gwelliannau sylweddol i eiddo a ddefnyddir fel lleoedd pleidleisio, i'w gwneud yn fwy hygyrch. Mae blaendaliadau y mae'n rhaid eu had-dalu ar gael gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder neu Swyddfa'r Alban ar gyfer addasiadau dros dro i eiddo a ddefnyddir fel lleoedd pleidleisio, ac, er nad yn ddelfrydol, gall y rhain helpu mwy o bobl gael mynediad i le pleidleisio.

Dewis adeiladau i'w defnyddio fel gorsafoedd pleidleisio

6.12 Yn draddodiadol, mae gorsafoedd pleidleisio yn tueddu i gael eu lleoli mewn adeiladau fel ysgolion, neuaddau pentref a chanolfannau cymunedol. Fodd bynnag, nid oes rheswm pam na ellir eu lleoli mewn adeiladau eraill sydd â mynediad da a gofod addas sy'n galluogi etholwyr i bleidleisio yn breifat. Mae eiddo mor amrywiol â siopau pysgod a sglodion, tafarndai, temlau ac archfarchnadoedd wedi'u defnyddio'n llwyddiannus fel gorsafoedd pleidleisio. Waeth bynnag y sefyllfa, mae'n hanfodol bod yr eiddo a nodir yn darparu gofod digonol i bleidleisio ddigwydd, yn cynnwys y gofod sydd o bosib ei angen ar gyfer rhoi lle i asiantau pleidleisio ac arsylwyr etholiadau achrededig.

6.13 Dylai Swyddogion Canlyniadau Lleol fod yn ymwybodol o unrhyw adeiladau newydd a allai ddarparu lleoliadau eraill ar gyfer unrhyw orsafoedd pleidleisio sydd â phroblemau mynediad. Gallai fod yna adeilad neu neuadd gymunedol newydd wedi ei adeiladu yn yr ardal y byddai'n orsaf bleidleisio ddelfrydol. Bydd cysylltu'n agos ag arbenigwyr mynediad yn helpu i sicrhau bod yr adeiladau gorau posib yn cael eu nodi.

6.14 Wrth ddewis adeiladau i gychwyn i'w defnyddio fel gorsafoedd pleidleisio neu'n adolygu gorsafoedd pleidleisio presennol, dylid ystyried y ffactorau a amlinellir isod.

Lleoliad yr adeilad

6.15 Mae lleoliad yr adeilad yn bwysig wrth ystyried a ddylid ei ddefnyddio ai peidio fel gorsaf bleidleisio. Os yn bosib, mae angen iddo fod yn agos i lle mae pleidleiswyr yn byw a bod yn gwbl hygyrch. Y cwestiynau i'w gofyn yw:

- A yw wedi'i leoli'n agos i lle mae mwyafrif yr etholwyr yn y dosbarth pleidleisio yn byw?
- A yw ar ben neu ar waelod bryn serth?
- A oes mynediad addas iddo i'r ffordd?
- Os oes palmant, a oes cwrbyn cwymp gerllaw?
- A oes cysylltiadau cludiant cyhoeddus cyfleus?
- A yw'n ddiogel ac wedi'i oleuo'n dda?

Cyfleusterau parcio

6.16 Mae llawer o etholwyr yn gyrru i'r orsaf bleidleisio, yn cynnwys pobl anabl, felly mae darparu lleoedd parcio mewn gorsafoedd pleidleisio yn bwysig. Y ffactorau i'w hystyried yw:

- A oes cyfleusterau parcio digonol yn agos i fynediad yr adeilad? Lle y bo angen, gallai Swyddogion Canlyniadau Lleol ystyried cysylltu ag adran gludiant eu hawdurdod lleol i drafod trefniadau parcio dros dro.
- Os nac oes, a oes unrhyw le cyfagos y gellir ei ddefnyddio ar gyfer parcio ar ddiwrnod yr etholiad yn unig?
- Pa mor bell mae'n rhaid i etholwyr gerdded o'r maes parcio i'r orsaf bleidleisio?
- A oes lle parcio anabl dynodedig, neu a ellid darparu un?
- A oes cwrbyn cwymp o'r ardal barcio i'r orsaf bleidleisio?
- A fydd rhaid cyflwyno cyfyngiadau parcio dros dro sy'n caniatáu i staff pleidleisio barcio gerllaw ac i bleidleiswyr, yn enwedig pleidleiswyr anabl, barcio am gyfnod i ganiatáu iddynt bleidleisio?

Llwybrau

6.17 Dylai'r llwybr o'r ffordd a gofod parcio ceir gael wyneb caled, llyfn, gwrthlithro heb stepiau, tyllau, cerrig wedi'u torri neu debyg; ni ddylai gael unrhyw raddiannau llym, a dylai fod wedi'i oleuo'n dda. Gall wynebau graean fod yn anodd i ddefnyddwyr cadeiriau olwyn.

Mynediad

6.18 Wrth asesu mynediad i brif fynediad yr adeilad, dylid ystyried y ffactorau canlynol:

- A oes gan yr adeilad fynediad gwastad?
- A oes stepiau i fynediad yr adeilad?
- A yw'r stepiau wedi'u hamlygu mewn unrhyw ffordd?
- A oes canllaw ger y stepiau?
- A oes ramp parhaol wedi'i ddarparu?

- Os na, a ellid darparu ramp dros dro gyda graddiant addas yn ddiogel, neu a oes mynedfa arall y gallai pobl anabl neu etholwyr eraill ei ddefnyddio?
- A yw'r drws yn ddigon llydan i ddefnyddwyr cadair olwyn gael mynediad?
- Pa nor drwm yw'r drysau i berson bregus neu oedrannus eu hagor? A fyddai cadw'r drysau ar agor?

Tu mewn yr adeilad

6.19 Pan yn asesu mynediad y tu mewn i'r adeilad, dylid ystyried y cwestiynau canlynol:

- A oes unrhyw stepiau neu rwystrau mewnol y bydd yn rhaid i'r etholwyr eu hwynebu?
- A yw matiau drysau ar yr un lefel â'r llawr? Os na, a ellir eu tynnu i ffwrdd?
- A oes unrhyw beryglon baglu eraill?
- A oes gorchudd llawr gwrthlithro addas? A fyddai'n dod yn llithrig wrth wlychu?
- A oes unrhyw goridorau a allai fod yn anodd eu defnyddio i unrhyw etholwyr sy'n defnyddio cadeiriau olwyn neu'n rheiny sy'n ei chael yn anodd cerdded?
- Yn nhermau cynllun cyfarpar pleidleisio yn ystafell yr orsaf bleidleisio, a oes digon o le yn yr ystafell i'r staff, cyfarpar pleidleisio a nifer o etholwyr, yn cynnwys defnyddiwr cadair olwyn?
- A oes goleuo digonol yn yr ystafell? Rhowch yr holl oleuadau sydd ar gael ymlaen i brofi hyn. A oes angen goleuo ychwanegol?
- Os oes gan yr eiddo fatiau symudol, llenni trwm sy'n llusgo ar y llawr, cymysgedd o garped a llawer pren gyda deunydd ymylol rhyngddynt, a lloriau wedi'u sgleinio – y gallant i gyd fod yn beryglon posib – beth sydd wedi'i wneud i'w tynnu i ffwrdd neu eu gwella?

Gorsafoedd pleidleisio symudol

6.20 Weithiau, nid oes unrhyw ddewis arall ond defnyddio gorsaf bleidleisio symudol, fel Portakabin. Mae hygyrchedd yn fater y dylid ei drafod gyda chyflenwyr eiddo o'r fath. Dylai Swyddogion Canlyniadau Lleol gysylltu â sawl cyflenwr gwahanol er mwyn cymharu'r hyn y gallant ei gynnig.

6.21 Gall generaduron swnllyd a ddefnyddir weithiau mewn gorsafoedd pleidleisio symudol achosi anawsterau i bobl fyddar pan fyddant yn pleidleisio, yn ogystal â bod yn annymunol ar gyfer staff pleidleisio a phobl mewn eiddo gerllaw. Dylid osgoi defnyddio generaduron o'r fath os yn bosib.

6.22 Mae llawer o ystyriaethau eraill y bydd angen cynllunio ar eu cyfer os defnyddir gorsafoedd pleidleisio symudol, yn cynnwys gwneud gorchmynion cau ffyrdd, os bydd angen, i wneud lle ar gyfer y gorsafoedd, darparu cyfleusterau toiledau i'r staff, cysylltu cyflenwad trydan os nas defnyddir generaduron, a disgrifio'n gywir safle'r orsaf bleidleisio ar gardiau pleidleisio ac ar arwyddion stryd.

Gweithredu i wella gorsafoedd pleidleisio

6.23 Ar ôl i unrhyw broblemau gael eu nodi, mae'n bwysig bod camau yn cael eu cymryd i'w goresgyn.

Rydym yn argymell bod Swyddogion Canlyniadau Lleol yn paratoi cynllun gweithredu i nodi gwelliannau a ffyrdd o'u gwneud. Gall gwelliannau parhaol i adeiladau fod yn fuddiol i ddefnyddwyr drwy gydol y flwyddyn, ac nid ar adeg etholiadau yn unig. Fodd bynnag, er mwyn cyflawni gwelliannau parhaol, mae angen dod o hyd i gyllid. Mae rhai cynghorau wedi rhoi grantiau mynediad i gyrff sy'n berchen ar adeiladau a ddefnyddir fel gorsafoedd pleidleisio, ar yr amod eu bod yn caniatáu defnyddio'r eiddo ar ddiwrnod pleidleisio.

Cyfarpar, hysbysiadau a chyflenwadau gorsafoedd pleidleisio

6.24 Yn ogystal ag ystyried gorsafoedd pleidleisio, mae hefyd yn bwysig iawn ystyried y cyfarpar a ddefnyddir y tu mewn i'r orsaf bleidleisio ymhell cyn y diwrnod pleidleisio.

6.25 Dylai fod gan bob gorsaf bleidleisio fwth pleidleisio lefel isel i'w ddefnyddio gan ddefnyddwyr cadair olwyn. Mae blaendaliadau y bydd angen eu had-dalu ar gael gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder neu Swyddfa'r Alban ar gyfer bythau pleidleisio i bleidleiswyr gydag anableddau. Mae grantiau ar gael hefyd i dalu cyfran o gost rampiau dros dro, a dylid archebu'r rhan ymhell cyn y diwrnod pleidleisio.

6.26 Mae rhai Swyddogion Canlyniadau Lleol yn darparu chwyddwydrau i etholwyr eu defnyddio wrth bleidleisio, a gall hyn fod yn ddefnyddiol i gynorthwyo'r etholwyr hynny â namau ar y golwg. Dylid gwirio bythau pleidleisio i sicrhau bod ynddynt ddigon o olau i ganiatau i'r rheiny â nam ar y golwg ddarllen y papur pleidleisio a'r cyfarwyddiadau yn glir. Os oes amheuaeth, dylid darparu golau atodol. Mae hefyd yn ddefnyddiol gosod stripiau gwyn neu oleuol o gwmpas y slotiau ar ben y blychau pleidleisio, i'w wneud yn haws i bobl weld lle i osod eu papurau pleidleisio.

6.27 Rhaid i bob gorsaf bleidleisio dderbyn dyfais bleidleisio gyffyrddol.[32] Dylid archebu'r rhan ymhell cyn y diwrnod pleidleisio.

6.28 Rhaid dangos un copi o leiaf o'r papur pleidleisio print mawr mewn man amlwg ym mhob gorsaf bleidleisio.[33] Mae'n ddefnyddiol cyflenwi mwy nag un papur pleidleisio print mawr i'w harddangos mewn lleoliadau amlwg sydd wedi'u goleuo'n dda yn yr orsaf bleidleisio.

6.29 Mae'n ofyniad cyfreithiol i'r Swyddog Canlyniadau Lleol ddarparu copi mawr a ddelir â llaw o'r papur pleidleisio (y mae'n rhaid ei farcio'n glir fel sampl) i gynorthwyo pleidleiswyr sy'n gweld yn rhannol.[34] Bydd lamineiddio

[32] Rheol 32(5)(b), Rheoliadau ESE.
[33] Rheol 32(5)(a), Rheoliadau ESE.
[34] Rheoliad 122A, Rheoliadau ESE.

samplau o'r fath yn helpu i'w hatal rhag rhwygo neu fynd yn frwnt a gallai fod yn ddefnyddiol cyflenwi mwy nag un copi ar gyfer pob gorsaf bleidleisio i bleidleiswyr eu defnyddio.

6.30 Yn ogystal, os bydd y Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol neu'r Swyddog Canlyniadau Lleol yn teimlo ei fod yn briodol, gellir cyfieithu holl hysbysiadau a dogfennaeth yr etholiad, ac eithrio'r papurau pleidleisio a phapurau enwebu, i Braille ac i ieithoedd ac eithrio'r Saesneg, ac, yng Nghymru, i'r Gymraeg. Gallant hefyd ddefnyddio cynrychioliadau graffigol neu unrhyw ddull arall o wneud yr wybodaeth yn hygyrch, fel sain.[35] Er enghraifft, gellid arddangos yr hysbysiad 'arweiniad i bleidleiswyr' ar ffurf llun neu ei gyfieithu i ieithoedd a ddefnyddir yn eang yn y gymuned.

Cyfunedig
Bydd yn rhaid i Swyddogion Canlyniadau Lleol gydag etholiadau cyfun yn eu hardaloedd sicrhau bod y gorsafoedd pleidleisio perthnasol wedi derbyn cyfarpar a deunydd swyddfa etholiadol ar gyfer y ddau etholiad, yn cynnwys y papurau pleidleisio print mawr a chopïau mawr a ddelir â llaw o'r papur pleidleisio a'r hysbysiadau perthnasol.

Archebu gorsafoedd pleidleisio

6.31 Mae cydweithrediad perchnogion eiddo yn bwysig wrth sicrhau bod lleoedd pleidleisio yn hygyrch. Gallai fod yn ddefnyddiol gofyn i berchnogion a ydynt yn ymwybodol o unrhyw broblemau mynediad penodol gyda'r eiddo a allai achosi anawsterau ar ddiwrnod y pleidleisio. Wrth archebu lleoedd pleidleisio, gall fod yn ddefnyddiol atgoffa perchnogion eiddo am y canlynol:

- Dylid rhoi unrhyw rampiau dros dro neu gyfleusterau mynediad eraill yn eu lle ar gyfer diwrnod y pleidleisio.
- Os oes mynedfa ar wahân i'r adeilad i bobl anabl, mae angen gosod arwyddion clir yn ei dangos a'i chadw ar agor ar gyfer diwrnod yr etholiad.
- Os oes gan yr orsaf bleidleisio lawr wedi'i sgleinio, ni ddylid ei sgleinio cyn diwrnod y bleidlais, er mwyn lleiafu'r risg o bleidleiswyr yn llithro, neu o leiaf, dylid gosod matiau llithro yn eu lle.

Newidiadau munud olaf i orsafoedd pleidleisio

6.32 Gallai fod amgylchiadau (e.e. llifogydd, tân, fandaliaeth) pan fydd angen newid gorsaf bleidleisio ar fyr rybudd. Fel rhan o'i gynllunio ar gyfer yr etholiad, dylai'r Swyddog Canlyniadau Lleol fod wedi llunio rhestr o orsafoedd pleidleisio wrth gefn neu Portakabins y gellir eu defnyddio mewn amgylchiadau o'r fath.

6.33 Awdurdodau lleol, nid Swyddogion Canlyniadau Lleol sy'n gyfrifol am ddynodi lleoedd pleidleisio a dosbarthiadau pleidleisio. Felly, os yn bosib ac yn ymarferol, dylai Swyddogion Canlyniadau Lleol ddynodi gorsaf bleidleisio

[35] Adran 122A, Rheoliadau ESE.

newydd o fewn yr un lle pleidleisio. Gan mai cyfrifoldeb y Swyddog Canlyniadau Lleol yw lleoliad gorsaf bleidleisio o fewn lle pleidleisio, ni fydd angen ceisio cymeradwyaeth ar wahân gan y cyngor ar gyfer newid o'r fath.

6.34 Fodd bynnag, os oes angen newid y lle pleidleisio bydd angen cael cytundeb gan y Cyngor. Os yw gweithdrefnau dirprwyo yn eu lle, dylai'r Swyddog Canlyniadau Lleol ddilyn y rhain fel y nodwyd yng nghyfansoddiad y cyngor a chysylltu â'r person neu'r personau sydd â'r hawl i wneud newidiadau i'r cynllun lleoedd pleidleisio.

6.35 Dylai Swyddogion Canlyniadau Lleol gofio diwygio hysbysiad yr etholiad i adlewyrchu unrhyw newidiadau i'w gorsafoedd pleidleisio.

6.36 Mae nifer o fesurau lliniaru y gall y Swyddog Canlyniadau Lleol eu cymryd er mwyn sicrhau y gall etholwyr yr effeithir arnynt bleidleisio â chyn lleied o aflonyddu â phosib. Gallent:

- os yw amser yn caniatáu, anfon llythyr allan i'r holl etholwyr yr effeithir arnynt yn eu hysbysu am y newid i'w gorsaf bleidleisio
- rhoi arwyddion i fyny yn yr hen le pleidleisio yn hysbysu etholwyr am y newid i'r orsaf bleidleisio a chynnwys cyfarwyddiadau i'r un newydd
- arddangos arwyddion clir a gweladwy yn yr orsaf bleidleisio newydd (dylai hyn ddigwydd ym mhob gorsaf bleidleisio)
- os yn bosib ac yn angenrheidiol, cynnig gwasanaeth cludiant yn ôl ac ymlaen rhwng yr hen orsaf bleidleisio a'r un newydd (dylai Swyddog Canlyniadau Lleol gysylltu â'u hawdurdod lleol i wirio am unrhyw ddulliau cludiant sydd ar gael a threfniadau yswiriant)

Dosbarthu, derbyn ac agor pleidleisiau drwy'r post

6.37 Mae hwn yn faes gweithgaredd hollbwysig wrth gyflwyno unrhyw etholiad. O ganlyniad, mae'r broses o ddosbarthu pecynnau pleidleisio drwy'r post yn cael ei hanfon allan yn gynyddol mewn llawer o ardaloedd, gan greu risgiau a heriau rheoli newydd.

6.38 Gallai fod angen i Swyddogion Canlyniadau Lleol sy'n bwriadu cynnal prosesau dosbarthu a/neu agor yn fewnol werthuso'r trefniadau blaenorol a lleoliadau ar gyfer eu haddasrwydd er mwyn gallu cyflwyno gweithrediad mwy os bydd angen.

6.39 Dylai unrhyw leoliad a ddefnyddir i agor pleidleisiau drwy'r post fod yn hygyrch i bawb sydd â'r hawl i fod yn bresennol, yn cynnwys ymgeiswyr, asiantau, arsylwyr a chynrychiolwyr y Comisiwn Etholiadol. Dylid nodi y galla arsylwyr achrededig a chynrychiolwyr y Comisiwn Etholiadol arsylwi'r broses pleidleisio drwy'r post gyfan, yn cynnwys dosbarthu papurau pleidleisio.

6.40 Yn ogystal, bydd angen cael digon o le i ymgymryd â'r gwiriadau sydd eu hangen nawr o foddau adnabod personol ac ar gyfer cyfnod datganiadau pleidleisio drwy'r post a dderbynnir, er mwyn cynhyrchu rhestr o bleidleiswyr drwy'r post wedi'u nodi. Mae'n bosib y gall y gofyniad i wirio moddau adnabod personol arwain at nifer o asiantau ac arsylwyr achrededig yn mynychu, ac

felly dylai lle digonol fod ar gael. Os defnyddir dulliau awtomataidd, dylai pwyntiau pŵer a rhwydwaith digonol fod yn eu lle i gynnal y dechnoleg angenrheidiol. Gallai fod angen hefyd i nodi lleoliad sy'n agos at swyddfa'r etholiad, fel y gellid gwirio copïau o'r ffurflenni cais pleidleisio mewn absenoldeb gwreiddiol yn hawdd os nad yw ansawdd y ddelwedd a sganiwyd yn caniatau i'r Swyddog Canlyniadau Lleol neu eu Dirprwy i wneud penderfyniad.

Lleoliadau cyfrif lleol a dilysu

6.41 Bydd effeithiolrwydd y dilysu a'r cyfrif yn dibynnu ar leoliad addas. Dylai'r gwerthusiad o'r etholiad blaenorol amlygu unrhyw bwyntiau dysgu ynghylch addasrwydd lleoliad(au) a ddefnyddiwyd yn flaenorol, a chynhyrchu set glir o ofynion ar gyfer dethol lleoliad dethol a chyfrif.

6.42 Wrth ddewis lleoliad ar gyfer dilysu ac ar gyfer y cyfrif, bydd angen cael digon o le ar gyfer pob agwedd ar y broses. Mae'n hanfodol bod digon o le ar gael i agor y pleidleisiau drwy'r post a ddychwelwyd i'r dilysiad gan Swyddogion Llywyddu neu gan y Post Brenhinol, a bod gan y lleoliad wasanaethau digonol i ymdopi ag unrhyw systemau dilysu llofnod a dyddiad geni awtomataidd sydd eu hangen i brosesu'r datganiadau pleidleisio drwy'r post.

6.43 Dylai unrhyw leoliad a ddefnyddir ar gyfer y dilysu neu'r cyfrif fod yn hygyrch i bawb sydd â'r hawl i fod yn bresennol neu i arsylwi'r broses, sy'n cynnwys arsylwyr achrededig a chynrychiolwyr y Comisiwn Etholiadol.

6.44 Gallai Swyddogion Canlyniadau Lleol ystyried darparu ardal ar wahân i'r cyfryngau. Tra'n creu lle ar gyfer y cyfryngau, mae'n hanfodol nad yw unrhyw bresenoldeb gan y cyfryngau yn amharu ar gynnal y cyfrif yn effeithiol.

6.45 Os nad yw'r cyfrif yn dilyn yn syth ar ôl y dilysu, rhaid i'r Swyddog Canlyniadau Lleol hefyd ddarparu amgylchedd diogel (e.e. ystafell ddiogeledd) i storio'r holl ddeunyddiau.

Cyfunedig
Mae angen ystyried sut i drefnu'r dilysu a'r cyfrif. Pan ddefnyddiwyd blychau pleidleisio ar wahân ar gyfer y gwahanol etholiadau, bydd angen i Swyddogion Canlyniadau Lleol sicrhau bod yr holl bapurau pleidleisio yn cael eu cynnwys yn y dilysu a'r cyfrif, ac nad oes unrhyw bapurau pleidleisio llywodraeth leol wedi cael eu gadael y tu mewn i flwch pleidleisio'r etholiadau Senedd Ewrop, ac fel arall.

Hygyrchedd

6.46 Er nad yw'r dilysu a'r cyfrif ar agor i'r cyhoedd yn yr un modd â gorsafoedd pleidleisio, dylid ystyried materion mynediad o hyd wrth benderfynu ar leoliadau, gan y gallai fod gan y rheiny sydd â'r hawl i fynychu anableddau neu anghenion mynediad eraill. Dylid ystyried y ffactorau canlynol wrth ddewis lleoliad cyfrif neu ddilysu:

- lleoliad yr adeilad
- goleuo (yn enwedig os yn dilysu neu'n cyfrif dros nos)
- cyfleusterau parcio
- y fynedfa a pha mor hygyrch ydyw
- unrhyw stepiau neu rwystrau mewnol i'r rheiny fydd yn mynychu
- gorchuddiadau llawr

Cael cyfarpar i'r gorsafoedd pleidleisio a lleoliad y cyfrif

6.47 Dylid hysbysu unrhyw asiantaeth neu gontractiwr a ddefnyddir i gyflenwi bythau pleidleisio neu ddeunyddiau etholiadol eraill ynghylch dyddiad yr etholiad ar gam cynnar yn y broses gynllunio. Mae angen gweithio amserlenni dosbarthu a manylebau contract cynhwysfawr allan gyda'r asiantaeth neu'r contractiwr ymlaen llaw er mwyn gwneud trefniadau i sicrhau bod deiliaid allweddi yn gallu bod yn bresennol i ddarparu mynediad i'r eiddo.

Y defnydd o ysgolion ac ystafelloedd gan ymgeiswyr

6.48 Mae'n ofynnol ar awdurdodau addysg lleol yn Lloegr a Chymru ac awdurdodau addysg yn yr Alban gynnal rhestr o ystafelloedd mewn adeiladau ysgolion y gall ymgeiswyr eu defnyddio ar gyfer cyfarfodydd etholiadol. Yn yr un modd, rhaid i gynghorau gynnal rhestr o ystafelloedd eraill a gynhelir ar gost gyhoeddus sydd ar gael i ymgeiswyr eu defnyddio ar gyfer cyfarfodydd etholiadol.[36]

6.49 Mae hawl gan ymgeiswyr a'u hasiantau etholiadol archwilio'r rhestrau ar bob amser rhesymol yn y cyfnod rhwng cyhoeddi'r hysbysiad o'r etholiad a'r diwrnod cyn y pleidleisio.

[36] Rheoliad 67, Atodlen 8, Rheoliadau ESE; Atodlen 5, RPA 1983.

7 Staffio

Staff y Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol

7.1 Gall Swyddogion Canlyniadau Rhanbarthol benodi un neu fwy o Ddirprwyon i gyflawni eu dyletswyddau.[37] Nid yw'n ofynnol cael cymeradwyaeth y Weinyddiaeth Gyfiawnder ar gyfer penodiadau o'r fath, ond disgwylir i bob Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol ddarparu'n briodol ar gyfer amgylchiadau lle na allant weithredu'n bersonol.

7.2 Nid oes gofyniad statudol o ran cymwysterau gofynnol ar gyfer Dirprwy Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol, ac nid oes angen iddynt fod yn swyddogion awdurdod y Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol. Mae Dirprwy Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol yn atebol yn yr un modd â Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol ar gyfer tramgwydd mewn dyletswyddau swyddogol.[38]

7.3 Caniateir i'r Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol benodi'r fath bobl y mae eu hangen i'w gynorthwyo mewn perthynas â'i swyddogaeth etholiadol.[39] Mae'n ofynnol hefyd i'r cyngor dan sylw sicrhau bod staff ar gael i gynorthwyo'r Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol wrth gyflawni swyddogaethau o'r fath.[40]

7.4 Mae unrhyw staff a benodir gan y Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol o dan eu cyfarwyddyd a'u rheolaeth drwy'r amser, heb ystyried eu cyflogaeth ar adegau eraill.

7.5 Os bydd y Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol yn marw neu'n cael ei analluogi, bydd angen i'r awdurdod lleol benodi swyddog newydd a fydd yn Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol. Bydd angen ailddatgan unrhyw ddirprwyaethau a wnaed gan y Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol blaenorol.

7.6 Dylai swyddogion gysylltu'n rheolaidd hefyd â Swyddogion Canlyniadau Rhanbarthol yn unol â threfniadau cytunedig o fewn y rhanbarth.

Staff y Swyddog Canlyniadau Lleol

7.7 Disgwylir i'r Swyddog Canlyniadau Lleol ddarparu'n briodol ar gyfer amgylchiadau pan na all weithredu'n bersonol. Gan hynny, gall y Swyddog Canlyniadau Lleol benodi Dirprwyon i gyflawni ei ddyletswyddau.[41]

7.8 Nid oes gofyniad statudol sy'n nodi'r cymwysterau y mae eu hangen ar Ddirprwy Swyddog Canlyniadau Lleol. Nid yw'r tâl a dderbynnir gan Ddirprwy Swyddog Canlyniadau Lleol yn destun pensiwn gan mai'r Swyddog Canlyniadau Lleol yw'r cyflogwr, nid yr awdurdod sy'n cyflogi.

---

[37] Rheoliad 7(1), Rheoliadau ESE.
[38] Rheoliad 25, Rheoliadau ESE.
[39] Rheoliad 7(1), Rheoliadau ESE.
[40] Adran 6(7), DCB.
[41] Rheol 7(1), Rheolau ESE.

7.9 Mae'r Swyddog Canlyniadau Lleol yn gyfrifol am benodi Swyddogion Llywyddu, Clercod Pleidleisio, staff cyfrif a staff eraill i ddosbarthu a derbyn pleidleisiau drwy'r post.

7.10 Mae staff awdurdodau lleol sy'n cael eu cyflogi i gyflawni'r dyletswyddau hyn dan gyfarwyddyd y Swyddog Canlyniadau Lleol, heb ystyried eu cyflogaeth arferol.

7.11 Mae'n ofynnol bod rhaid i unrhyw aelod o staff y Swyddog Canlyniadau Lleol beidio â chael ei gyflogi gan neu ar ran ymgeisydd 'yn neu sy'n ymwneud â'r etholiad'.[42] Dylai Swyddogion Canlyniadau Lleol sicrhau cadarnhad ysgrifenedig o hyn gan unrhyw un y maent yn bwriadu ei benodi.

7.12 Wrth gael eu penodi, dylid darparu hysbysiad ffurfiol ar gyfer yr holl staff, gyda chopi o'r cytundeb neu'r ffurflen dderbyn, er mwyn iddynt eu llofnodi a'u derbyn i nodi eu bod yn cytuno. Gallai fod yn ddefnyddiol i'r hysbysiad hwn gynnwys y darpariaethau cyfrinachedd perthnasol yn ogystal â'r cadarnhad y cyfeiriwyd ato uchod.[43]

Recriwtio a chyflwyno staff yn effeithiol

7.13 Gall asesiad cynnar o berfformiad Swyddogion Llywyddu a staff allweddol eraill mewn etholiadau blaenorol ar wain at benderfyniad i drefnu ymgyrch recriwtio a gweithgareddau hyfforddi penodol bellach ar gam cynnar wrth baratoi ar gyfer yr etholiad.

7.14 Ar ben hynny, dylai'r asesiad hwn amlygu argaeledd staff ar ddyddiad yr etholiad. Hefyd, mae cael digon o staff wrth gefn yn hollbwysig o ran sicrhau niferoedd digonol.

7.15 Cynghorir defnyddio dulliau recriwtio a chyflogi staff cadarn a fyddai'n gwrthsefyll craffu gan archwilydd.

7.16 Staff sydd wedi'u hyfforddi'n dda ac yn barod i helpu yw'r adnodd pwysicaf mewn gorsaf bleidleisio. Yn aml, recriwtir staff gorsafoedd pleidleisio o staff y cyngor ac aelodau o staff sydd wedi ymddeol. Lle bo'n briodol, dylid gwneud ymdrech i gyflogi staff mewn gorsafoedd pleidleisio sy'n gallu cyfathrebu mewn un neu fwy o ieithoedd priodol a ddefnyddir o fewn cymuned. Gall hyn fod yn ddefnyddiol wrth ddarparu cymorth i etholwyr nad ydynt yn siarad Saesneg. Gall hefyd olygu technegau recriwtio sydd â'r nod o annog ceisiadau gan amrywiaeth eang o gymunedau. Yn yr un modd, gall rhai pobl anabl gyflawni dyletswyddau pleidleisio gystal neu'n well na phobl nad ydynt yn anabl.

Cyfarwyddebau Amser Gweithio

7.17 Nod sylfaenol y Cyfarwyddebau Amser Gweithio a Gweithwyr Ifanc Ewropeaidd (Rheoliadau Amser Gwaith 1988) yw sicrhau bod gweithwyr

[42] Rheol 30, Rheolau ESE.
[43] Rheoliad 29, Rheoliadau ESE.

wedi'u diogelu rhag gweithio oriau gormodol. Mae'r rheoliadau'n cyfyngu ar nifer yr oriau a weithir bob wythnos ac yn ei gwneud hi'n ofynnol i gyflogwyr ganiatáu isafswm cyfnodau gorffwys.

7.18 Er nad yw gweithio i'r Swyddog Canlyniadau Lleol yr un gwaith â gweithio i'r cyngor, dylid ystyried cyfanswm yr oriau y mae staff yn gweithio er mwyn i bob cyflogwr sicrhau ei fod yn monitro iechyd staff y mae ganddynt ddyletswydd gofal drostynt.

7.19 Mae'r rheoliadau'n caniatáu i fathau penodol o waith gael eu heithrio o'r darpariaethau arferol ar gyfnodau gorffwys a chyfanswm oriau gwaith. Yn ystod etholiad, gallai eithriadau fod yn berthnasol. Gall hyn olygu, er enghraifft, y gellir darparu cyfnod gorffwys ychwanegol ar ddiwedd cyfnod prysur yn hytrach nag yn ystod y cyfnod. Mae'n bosib hefyd i weithiwr ymeithrio o'r rheolau ar gyfanswm amserau gweithio (ond nid y gofyniad i gael egwyl), a gellir ystyried hyn ar gyfer staff cynghorau sy'n gweithio dros gyfnod hwy yn ystod yr etholiad.

Deddf Lloches a Mewnfudo 1996

Mae'n rhaid i Swyddogion Canlyniadau Lleol sicrhau bod yr holl staff a gyflogir yn yr etholiad â hawl i weithio yn y DU yn unol â darpariaethau Deddf Mewnfudo, Lloches a Chenedligrwydd 2006. Nid yw'n ddigonol bellach i ddibynnu ar rif Yswiriant Gwladol unigol yn unig fel tystiolaeth bod ganddo/ganddi hawl i weithio yn y DU.

Mae gwefan Asiantaeth Ffiniau'r DU yn cynnwys canllawiau cynhwysfawr i gyflogwyr ar atal gweithio anghyfreithlon: www.ukba.homeoffice.gov.uk/sitecontent/documents/employersandsponsors/preventingillegalworking/

Yswiriant Gwladol

7.20 Yn unol â Rheoliadau Nawdd Cymdeithasol 1978 (Categoreiddio Cyflogeion) (SI 1978/1689), nid oes atebolrwydd ar gyfer cyfraniadau Yswiriant Gwladol fel neu gan y Swyddog Canlyniadau. Gan hynny, ni ddylid didynnu Yswiriant Gwladol.

Treth Incwm

7.21 Mae'n rhaid didynnu treth incwm ar y gyfradd dreth sylfaenol oni bai bod cyflogeion yn gallu cwblhau 'Tystysgrif P527 o incwm sy'n destun treth'. Mewn achosion o'r fath, gellir talu ffioedd crynswth. Yn ogystal, gall cyflogeion ofyn i dreth incwm gael ei didynnu o'u ffioedd ar y gyfradd uwch, os yw'n berthnasol. Er mwyn sicrhau bod y gweithdrefnau a fabwysiedir yn dderbyniol, awgrymir y dylid ymgynghori ag Arolygydd Trethi'r cyngor perthnasol.

Staff ar gyfer dosbarthu a derbyn papurau pleidleisio drwy'r post

7.22 Er mwyn sicrhau llwyddiant dosbarthu ac agor pleidleisiau drwy'r post o fewn y terfynau amser, mae'n rhaid i Swyddogion Canlyniadau Lleol sicrhau bod ganddynt ddigon o staff. Gall fod angen staff ychwanegol i gynnal y broses ddosbarthu'n fewnol. Er mwyn asesu'r lefelau staffio tebygol y bydd eu hangen, dylai'r Swyddog Canlyniadau Lleol amcangyfrif y niferoedd a fydd yn pleidleisio a chyfrifo nifer y sesiynau agor y mae'n debygol y bydd eu hangen, a nifer y staff ym mhob un.

7.23 Bydd angen asesu hefyd effaith y gofyniad i wirio'r llofnod a'r dyddiad geni ar bob datganiad pleidleisio drwy'r post ac ymgorffori unrhyw beth a ddysgwyd gan etholiadau blaenorol yn y cynlluniau staffio, yn ogystal â'r gofyniad i gynhyrchu rhestr wedi'i marcio o'r pleidleisiau drwy'r post a ddychwelwyd a'r angen posib i nodi a diddymu pleidleisiau drwy'r post sydd wedi'u canslo. Bydd llawer yn dibynnu ar faint y gellir awtomeiddio'r broses, a faint o amser y mae ei angen i ddilysu datganiadau pleidleisio drwy'r post lle nodir anghysondebau posib. Mae'n amlwg y bydd cyflawni gwiriadau o'r fath yn gofyn am fwy o staff os nad yw rhan o'r broses, neu'r broses gyfan, wedi'i hawtomeiddio. Mae'n bosib y bydd y mesurau gwrth-dwyll hyn olygu y bydd angen nifer cynyddol o sesiynau agor sydd o bosib yn hwy beth bynnag.

7.24 Ar ben hynny, mae'n bosib y bydd nifer y pleidleisiau drwy'r post sy'n cael eu dychwelyd i orsafoedd pleidleisio (ac mewn rhai achosion y rhai sydd wedi'u sgrinio gan y Post Brenhinol) yn gofyn am staff (a lle) ychwanegol i agor y rhain. Os cesglir pleidleisiau drwy'r post o orsafoedd pleidleisio yn ystod y dydd, gellid eu hagor mewn sesiwn ar wahân cyn dilysu papurau pleidleisio, gan leihau'r niferoedd sydd i'w hagor bryd hynny.

Cyfunedig
Gall penderfynu p'un ai a ddylid dosbarthu pleidleisiau drwy'r post mewn modd cyfunedig neu'n unigol effeithio ar nifer y staff y mae eu hangen ar gyfer dosbarthu (os yw'n cael ei wneud yn fewnol) ac agor pleidleisiau drwy'r post, a dylai Swyddogion Canlyniadau Lleol gynllunio'n briodol ar gyfer hyn.

7.25 Mae'n rhaid i'r Swyddog Canlyniadau Lleol ddarparu copi o ddarpariaethau cyfrinachedd a geir yn Rheoliad 29(4) a (7) Rheoliadau Etholiadau Senedd Ewrop ar gyfer yr holl staff sy'n ymwneud â dosbarthu a derbyn papurau pleidleisio drwy'r post.

Penodi Swyddogion Llywyddu a Chlercod Pleidleisio

7.26 Mae'n rhaid i'r Swyddog Canlyniadau Lleol benodi Swyddog Llywyddu i fod yn bresennol ym mhob gorsaf bleidleisio yn ogystal â chynifer o glercod pleidleisio ag y mae eu hangen ar gyfer yr etholiad. Bydd y niferoedd yn dibynnu ar ba mor brysur y bydd yr orsaf bleidleisio ar sail profiad blaenorol, yn nhyb y Swyddog Canlyniadau Lleol. Dylai Swyddogion Canlyniadau Lleol hefyd ystyried nifer y ceisiadau am bleidleisiau drwy'r post wrth ddyrannu

staff, gan y bydd llai o etholwyr yn dod i orsafoedd pleidleisio i bleidleisio'n bersonol mewn ardaloedd sydd â nifer mawr o bobl sy'n pleidleisio drwy'r post.

7.27 At ddiben arweiniad, roedd y cymarebau a argymhellir ar gyfer trefniadau staffio yn etholiad cyffredinol seneddol diwethaf y DU fel a ganlyn:

- Yn ogystal â Swyddog Llywyddu, dylai fod un Clerc Pleidleisio ar gyfer pob 1,000 neu'n llai o bleidleiswyr.
- Gellir cyflogi un Clerc Pleidleisio ychwanegol ar gyfer y 750 etholwr nesaf.
  Gellir penodi trydydd Clerc Pleidleisio mewn gorsaf bleidleisio sydd â hyd at 2,500 o etholwyr.
- Lle bo'n bosib, ni ddylai fod mwy na 2,500 o etholwyr wedi'u dyrannu i orsaf bleidleisio.

7.28 Dylid rhoi'r hysbysiad o ofyniad ynghylch cyfrinachedd yn yr orsaf bleidleisio, Rheoliad 29(1), (6) a (7) Rheoliadau Etholiadau Senedd Ewrop i Swyddogion Llywyddu.

7.29 Yn unol â'r rheolau, caniateir i'r Swyddog Canlyniadau Lleol roi caniatâd i unrhyw staff pleidleisio na fydd modd iddynt bleidleisio yn eu gorsaf bleidleisio eu hunain oherwydd eu cyflogaeth bleidleisio mewn unrhyw orsaf bleidleisio yn yr etholaeth maent wedi'u cofrestru ynddi drwy ddefnyddio tystysgrif gyflogaeth.

7.30 Fel arall, gall staff pleidleisio ddewis gwneud cais am bleidlais drwy'r post, ac mae llawer o Swyddogion Canlyniadau Lleol yn darparu ffurflen gais gyda'r llythyr cychwynnol i staff pleidleisio posib, ynghyd â gwybodaeth am y terfynau amser ar gyfer ceisiadau.

Staff y Cyfrif

7.31 Bydd nifer y cynorthwywyr cyfrif a benodir yn dibynnu ar y lleoliad a ddewisir a nifer y pleidleisiau sydd i'w cyfrif.

7.32 Mae'n rhaid darparu copi o Reoliad 29(2) a (7) Rheoliadau Etholiadau Senedd Ewrop i staff cyfrif, sy'n esbonio'r gofyniad am gyfrinachedd yn y sesiwn gyfrif.

Hyfforddiant

7.33 Mae hyfforddi staff etholiadol yn swyddogaeth barhaus bwysig wrth gyflwyno etholiad yn llwyddiannus, a dylai fod yn rhan annatod o'r broses gynllunio. Swyddogion Llywyddu a Chlercod Pleidleisio yw'r staff rheng flaen sy'n dod i gyswllt â phleidleiswyr; mewn sawl achos, nhw yw'r unig aelodau o staff y Swyddog Canlyniadau Lleol y bydd pleidleiswyr yn cwrdd â hwy'n bersonol. Mae'n bwysig, felly, bod staff yn cael hyfforddiant mor llawn â phosib er mwyn cyflawni eu dyletswyddau. Dylai Clercod Pleidleisio a Swyddogion Llywyddu derbyn hyfforddiant sy'n cynnwys gwybodaeth a

sesiwn friffio ynghylch materion a gweithdrefnau mynediad. Gall arolygwyr gorsafoedd pleidleisio elwa o hyfforddiant o'r fath hefyd.

7.34 Dylai staff sy'n ymdrin â dosbarthu a derbyn pleidleisiau drwy'r post dderbyn hyfforddiant penodol hefyd, sy'n cynnwys sesiwn friffio ar weithdrefnau. Hefyd, yng Nghymru a Lloegr, mae'r Gwasanaethau Gwyddor Fforensig yn darparu gwasanaethau hyfforddi gwirio llofnodion, ac mae'n bosib y bydd y Swyddog Canlyniadau Lleol am ystyried cynnig yr hyfforddiant hwn i staff sy'n ymwneud yn unionyrchol â dilysu dulliau adnabod pleidleisiau drwy'r post. Yn yr Alban, dylai Swyddogion Canlyniadau Lleol gysylltu â Gwasanaethau Fforensig Awdurdod Gwasanaethau Heddlu'r Alban.

Am fwy o wybodaeth ynghylch y gwasanaethau a ddarperir gan y Gwasanaeth Gwyddor Fforensig a'u manylion cyswllt, ewch i'w gwefan yn: www.forensic.gov.uk

Am fwy o wybodaeth am Wasanaethau Fforensig Awdurdod Gwasanaethau Heddlu'r Alban, ewch i: www.spsa-forensics.police.uk

7.35 Mae'n bwysig bod y Swyddog Canlyniadau Lleol a'i staff yn llunio cynllun hyfforddi ar gyfer yr holl staff etholiadol y bydd angen hyfforddiant arnynt ar gyfer yr etholiad. Dylai hyfforddiant cychwynnol nodi pwy y bydd angen hyfforddiant arnynt ynghyd â'u hanghenion hyfforddiant.

I gefnogi Swyddogion Canlyniadau Lleol wrth ddarparu hyfforddiant i staff etholiadol, mae'r Comisiwn yn datblygu amrywiaeth o ddeunyddiau cefnogi at ddibenion hyfforddiant a chyfeirio wrth gyflwyno prosesau etholiadol allweddol. Bydd y deunyddiau isod ar gael i'w lawrlwytho o wefan y Comisiwn yn: www.electoralcommission.org.uk/guidance/resources-for-electoral-administrators/european-parliamentary-elections

- deunydd i gefnogi hyfforddi staff gorsafoedd pleidleisio:
  - *Llawlyfr i staff gorsafoedd pleidleisio* (bydd copïau printiedig ar gael i'w harchebu hefyd)
  - Canllaw cyflym i staff gorsafoedd pleidleisio (bydd copïau printiedig ar gael i'w harchebu hefyd)
  - templed cyflwyniad PowerPoint
  - Templedi cynlluniau gwersi
- deunyddiau a thempledi cynlluniau gwersi i gefnogi cyfrif pleidleisiau:
  - canllawiau ar bapurau pleidleisio amheus (bydd copïau printiedig ar gael i'w harchebu hefyd)
- templed cwestiynau cyffredin i staff eraill sy'n ymwneud â'r broses etholiadol (e.e. staff canolfannau galwadau)

Sylwer: Yn y rhannau hynny o Loegr sy'n cynnal etholiadau Senedd Ewrop a llywodraeth leol ar y cyd, bydd y Comisiwn yn addasu neu'n darparu fersiynau ar wahân o'r dogfennau cefnogol a restrir uchod.

7.36 Y ffordd orau o fwyafu'r defnydd o'r deunyddiau a'r gwasanaethau hyfforddi a ddarperir ar gyfer yr etholiad yw sicrhau bod staff etholiadol allweddol yn ymwybodol ohonynt a bod tîm yr etholiad yn gyfarwydd â hwy ac yn gallu rhaeadru'r hyfforddiant.

7.37 Mae gan lawer o gynghorau fynediad i bersonél hyfforddi a allai gynorthwyo gyda'r broses hon e.e. darparu mwy o hyfforddiant generig ar sgiliau cyflwyno, er mwyn galluogi staff etholiadol allweddol i raeadru hyfforddiant i staff pleidleisio a staff eraill yn fwy hyderus.

7.38 Dylai unrhyw gynllun hyfforddi gynnwys dulliau o werthuso'r sesiynau a'r deunyddiau hyfforddi hefyd, er mwyn cyfeirio cynllunio yn y dyfodol.

Hyfforddiant ar faterion mynediad i staff gorsafoedd pleidleisio

7.39 Mae rhai cynghorau'n darparu hyfforddiant ymwybyddiaeth anableddau ar gyfer yr holl staff pleidleisio. Gallai hyn gael ei ddarparu gan swyddog mynediad y cyngor neu gan grwpiau pobl anabl lleol sydd â'r arbenigedd gofynnol. Fodd bynnag, dylai'r holl staff pleidleisio feddu ar y canlynol o leiaf:

- hyfforddiant wrth ddefnyddio templedi cyffyrddol sy'n galluogi pleidleiswyr dall neu sy'n gweld yn rhannol i bleidleisio heb gymorth
- ymwybyddiaeth o'r papur pleidleisio print bras sydd i'w arddangos yn yr orsaf bleidleisio, y copi llaw mawr o'r papur pleidleisio a fydd ar gael i'w roi i bleidleiswyr, ac unrhyw gyfieithiadau o hysbysiadau swyddogol i fformatau eraill y mae'r Swyddog Canlyniadau Lleol wedi nodi eu bod yn briodol ac a gânt eu darparu i orsafoedd pleidleisio
- Ymwybyddiaeth o bwysigrwydd cynllun yr orsaf bleidleisio, gan gynnwys sut i osod hysbysiadau, gan ystyried lefelau golau a sut i gynnig cymorth i bobl anabl
- ymwybyddiaeth o ddarpariaethau sy'n caniatáu i bobl anabl gael cydymaith i'w cynorthwyo i bleidleisio neu'n gofyn i'r Swyddog Llywyddu eu cynorthwyo
- ymwybyddiaeth o bwysigrwydd siarad yn glir i bobl ag anabledd dysgu neu nam ar y clyw
- rhoi cyngor ynghylch sut i gynorthwyo pleidleiswyr ag anableddau dysgu
- darparu canllawiau i faterion mynediad i gyfeirio atynt ar y diwrnod pleidleisio
- darparu rhestr wirio o faterion i'w hystyried wrth sefydlu gorsaf bleidleisio
- os yw'n briodol, hyfforddiant ar sut i osod unrhyw rampiau dros dro'n ddiogel

7.40 Mae'n werth nodi y bydd nifer o bobl yn anghyfarwydd â'r broses bleidleisio a dylai staff pleidleisio fod wedi cael eu hyfforddi i wneud y profiad pleidleisio mor glir a hygyrch â phosib i'r holl bleidleiswyr.

7.41 Fel rhan o broses adolygu etholiad y Swyddog Canlyniadau, dylid gofyn i Swyddogion Llywyddu, Clercod Pleidleisio a staff cyfrif gwblhau holiadur i amlygu unrhyw broblemau mynediad nas rhagwelwyd neu unrhyw faterion

eraill a ddaeth i'r amlwg ar y diwrnod pleidleisio er mwyn osgoi i'r rhain ddigwydd eto mewn etholiadau yn y dyfodol.

8 Uniondeb etholiadol

Darpariaethau cyfrinachedd

8.1 Bu pleidlais gyfrinachol yn nodwedd etholiadau'r DU ers 1872. Mae cysyniad pleidlais gyfrinachol wedi'i gynnwys ym Mhrotocol Cyntaf y Confensiwn Hawliau Dynol Ewropeaidd, sydd bellach yn rhan o gyfraith y DU drwy Ddeddf Hawliau Dynol 1998. Ar lefel ymarferol, mae'r ddeddfwriaeth yn egluro'r canlynol:

- gweithredir y pôl drwy bleidlais
- caiff y nod swyddogol ei gadw'n gyfrinachol ac ni chaiff yr un nod swyddogol ei ddefnyddio eto mewn etholiadau ar gyfer yr un ardal gyfrif leol am bum mlynedd[44]
- mewn unrhyw drafodion cyfreithiol sy'n ymwneud â'r etholiad, ni fydd gofyn i unrhyw berson ddatgan dros bwy maent wedi pleidleisio
- bydd y pleidleisiwr yn marcio'i bapur pleidleisio'n gyfrinachol a'i blygu er mwyn cuddio'r bleidlais (mae'r gofyniad i blygu yn berthnasol dim ond i'r rhai sy'n pleidleisio mewn gorsafoedd pleidleisio ac nid i'r rhai sy'n pleidleisio drwy'r post)

8.2 Mae Rheoliad 29 Rheoliadau Etholiadau Senedd Ewrop yn gwneud darpariaethau ynghylch cyfrinachedd pleidleisio ac, i'r perwyl hynny, yn ei gwneud hi'n ofynnol na fydd y bobl amrywiol sy'n ymwneud â chynnal yr etholiad yn cyfathrebu:

- enwau pobl sydd wedi neu nad ydynt wedi pleidleisio
- niferoedd etholwyr pleidleiswyr
- y nod swyddogol
- yr ymgeisydd y mae pleidleisiwr wedi bwrw pleidlais drosto
- y rhif neu unrhyw nod adnabod unigryw arall ar gefn papur pleidleisio

8.3 Mae'n rhaid darparu copi o rannau priodol y darpariaethau cyfrinachedd fel a nodir yn Rheoliad 29 Rheoliadau Etholiadau Senedd Ewrop i bob person sy'n dod i orsaf bleidleisio (heblaw am at ddiben pleidleisio neu bobl o dan 18 oed sy'n dod gyda phleidleisiwr), staff sy'n ymwneud â dosbarthu pleidleisiau drwy'r post a'r holl bobl sy'n bresennol wrth i bleidleisiau drwy'r post gael eu hagor a'u cyfrif. Gellir gwneud hyn yn gyfleus drwy argraffu'r manylion perthnasol ar ddogfennaeth dderbyn a roddir i ymgeiswyr, asiantau etholiadau, asiantau pleidleisio ac asiantau cyfrif. Yn achos Swyddogion Llywyddu, Clercod Pleidleisio, staff cyfrif a staff sy'n ymwneud â dosbarthu a derbyn pleidleisiau drwy'r post, gellir ymgorffori hyn yn yr hysbysiad o'u penodiad.

8.4 Mae torri'r gofynion cyfrinachedd yn drosedd ac ar ôl collfarn ddiannod, mae unigolyn sydd wedi troseddu yn agored i ddirwy nad yw'n fwy na £5,000, neu garchar am gyfnod hyd at chwe mis.[45]

[44] Rheol 24 (2), Rheolau ESE.
[44] Rheoliad 29(7), Rheoliadau ESE.

Troseddau etholiadol allweddol

8.5 Mae nifer o droseddau etholiadol wedi'u nodi yn RPA 1983, ac mae'r troseddau allweddol wedi'u rhestru isod. Am restr lawn, cyfeiriwch at y ddeddfwriaeth briodol.

8.6 **Dylanwad gormodol:** lle mae unigolyn, yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, yn defnyddio, neu'n bygwth defnyddio gorfodaeth, trais neu ataliaeth; neu'n anafu, yn difrodi neu'n niweidio neu'n bygwth hynny er mwyn cymell unrhyw bleidleisiwr i bleidleisio neu ymatal rhag pleidleisio.[46] Mae'r drosedd hon yn cynnwys bwriad ac nid dim ond lle mae gweithred wedi'i chyflawni. Gall person fod yn euog o ddefnyddio dylanwad gormodol os byddant yn rhwystro neu'n atal neu'n bygwth rhwystro neu atal etholwr rhag bwrw ei bleidlais yn rhydd.

8.7 **Llwgrwobrwyo:** lle mae unrhyw unigolyn, yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, yn rhoi unrhyw arian neu'n caffael swydd i neu ar gyfer unrhyw bleidleisiwr er mwyn cymell unrhyw bleidleisiwr i fwrw pleidlais neu beidio â bwrw pleidlais dros ymgeisydd penodol, neu fwrw pleidlais neu ymatal rhag bwrw pleidlais.[47]

8.8 **Rhoi gwledd i etholwyr:** lle naill ai cyn, yn ystod neu ar ôl etholiad, mae unrhyw berson, yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, yn rhoi neu'n darparu (neu'n talu'n gyfan gwbl neu'n rhannol cost rhoi neu ddarparu) unrhyw fwyd diod, adloniant neu ddarpariaeth er mwyn dylanwadu'n llwgr ar unrhyw bleidleisiwr i fwrw pleidlais neu ymatal rhag bwrw pleidlais.[48]

8.9 **Personadu:** lle mae unrhyw unigolyn yn pleidleisio fel rhywun arall (p'un a yw'r person arall hwnnw yn fyw neu'n farw neu'n berson ffugiol), naill ai drwy'r post neu'n bersonol mewn gorsaf bleidleisio naill ai fel etholwr neu fel dirprwy. Ar ben hynny, gellir tybio bod yr unigolyn sy'n pleidleisio'n euog o bersonadu os byddant yn pleidleisio ar ran person y gellir tybio'n rhesymol ei fod yn farw neu'n ffugiol, neu le gellir tybio'n rhesymol nad yw'r penodiad pleidleisio drwy ddirprwy mewn grym bellach.[49]

8.10 **Pleidleisio drwy'r post a thrwy ddirprwy:** lle mae unigolyn yn gwneud cais am bleidlais drwy'r post neu drwy ddirprwy fel rhyw berson arall, fel arall yn gwneud datganiad ffug mewn perthynas â chais am bleidlais drwy'r post neu drwy ddirprwy, yn cymell Swyddog Cofrestru Etholiadol neu Swyddog Canlyniadau i anfon pleidlais drwy'r post neu gyfathrebiad cysylltiedig i gyfeiriad na chytunwyd arno gan y person sydd â hawl i bleidleisio, neu'n achosi pleidlais drwy'r post neu drwy ddirprwy i beidio â chael ei hanfon i'r derbynnydd arfaethedig.[50]

---

[46] Rheoliad 79, Rheoliadau ESE.
[47] Rheoliad 77, Rheoliadau ESE.
[48] Rheoliad 78, Rheoliadau ESE.
[49] Rheoliad 23, Rheoliadau ESE.
[50] Rheoliad 24, Rheoliadau ESE.

8.11 **Gwybodaeth ffug mewn papurau enwebu:** lle mae person yn rhoi gwybodaeth ffug mewn papur enwebu neu wrth gytuno i gael eu henwebu, maent yn euog o arfer llwgr.[51]

8.12 **Troseddau mewn perthynas ag ymgeisio:** lle mae ymgeisydd yn ddinesydd perthnasol aelod wladwriaeth yr Undeb Ewropeaidd ac yn gwneud datganiad ffug yn y datganiad y mae'n ofynnol ei lofnodi o dan Reol 9(2) Rheolau Etholiadau Ewropeaidd, mae'r person hwnnw'n euog o drosedd.[52]

8.13 Mae hefyd yn drosedd i gynorthwyo neu gefnogi cyflawni'r troseddau uchod.

Mae gwybodaeth ynghylch y troseddau hyn hefyd wedi'i chynnwys yng *Nghanllawiau i ymgeiswyr ac asiantau* y Comisiwn a'i ganllawiau i heddluoedd. Bydd copïau o'r rhain ar gael i'w lawrlwytho o wefan y Comisiwn yn: www.electoralcommission.org.uk/guidance/resources-for-electoral-administrators/integrity-guidance/electoral-events and www.electoralcommission.org.uk/guidance/resources-for-electoral-administrators/european-parliamentary-elections

Troseddau annetholiadol

8.14 Yn ogystal â thorri'r gofynion cyfrinachedd a'r troseddau a amlinellir uchod, mae nifer o droseddau annetholiadol a allai fod yn berthnasol hefyd mewn cyd-destun etholiadol.

Yng Nghymru a Lloegr, mae enghreifftiau o'r fath yn cynnwys:

- gwneud datganiad ffug (Deddf Anudoniaeth 1911)
- ffugio a defnyddio offeryn ffugiol (Deddf Ffugio a Drwgfathu 1981)
- aflonyddu (Deddf Amddiffyn rhag Aflonyddu 1997)
- troseddau trefn gyhoeddus (Deddf Trefn Gyhoeddus 1986)

Mae datganiad ffug yn llw ffug yn yr Alban dan Adran 44 Deddf Cyfraith Droseddol (Cydgyfnerthu) (Yr Alban) 1995. Mae ffugio'n cael ei adnabod fel 'cyhoeddi dogfen ffug yn un ddilys' dan gyfraith gyffredin yr Alban. Nid yw aflonyddu'n drosedd yn yr Alban, ond gellir cyhuddo person o dorheddwch (dan gyfraith gyffredin) neu gyflawni gweithred sifil. Mae fandaliaeth yn drosedd o dan Ddeddf 1995.

Ymdrin â chyhuddiadau o droseddau yn yr etholiad

8.15 Er bod Swyddogion Canlyniadau a'u staff mewn sefyllfa ddelfrydol i nodi camarfer, nid oes ganddynt unrhyw bwerau i wirio neu ymchwilio i honiadau o dwyll neu gamarfer etholiadol. Gall y Swyddog Canlyniadau gyfeirio'r rhain at y Swyddog Cofrestru Etholiadol, sy'n gallu cyflawni gwiriadau penodol. Defnyddir gwiriadau yma i olygu cymharu dogfen â chofnodion eraill neu ofyn

[51] Rheoliad 27, Rheoliadau ESE.
[52] Rheoliad 28, Rheoliadau ESE.

am fwy o wybodaeth lle bo'n briodol. Fodd bynnag, ni ddylai Swyddogion Cofrestru Etholiadol gyflawni unrhyw ymchwiliad - hynny yw, ymweld ag eiddo neu gyfweld â phobl.[53] Gall fod gan wasanaethau eraill y cyngor staff y mae'n ddyletswydd arnynt i ymchwilio i achosion o'r fath a gall fod yn fuddiol i'r ddwy ochr i gysylltu â hwy cyn cyfeirio dogfen amheus i'r Heddlu.

8.16 Yng Nghymru a Lloegr, dylid rhoi gwybod i'r Heddlu am Adran 181 DCB 1983, sy'n rhoi dyletswydd ar y Cyfarwyddwr Erlyniad Cyhoeddus (sef Pennaeth Gwasanaeth Erlyn y Goron) i ymchwilio i honiadau o dwyll neu gamarfer etholiadol. Mae Gwasanaeth Erlyn y Goron yn annog yr Heddlu i drafod honiadau o gamarfer etholiadol gyda'i Adran Troseddau Arbennig yn Efrog neu Lundain ar gam cynnar.

Yn yr Alban, bydd yr Heddlu'n cyflawni'r ymchwiliadau angenrheidiol i'r drosedd honedig gyda'r bwriad o gyflwyno adroddiad i'w ystyried gan y Procuradur Ffisgal. Bydd y Procuradur Ffisgal yn ystyried y dystiolaeth a holl amgylchiadau'r achos er mwyn penderfynu a yw achos troseddol yn briodol neu beidio. Lle bo'n bosib, bydd yr Heddlu'n hysbysu'r Swyddog Canlyniadau perthnasol am gynnydd.

Os bydd angen gwybodaeth neu gyngor ychwanegol ar Swyddogion Canlyniadau Rhanbarthol neu Leol ynghylch trin a chyfeirio honiadau etholiadol neu os ydynt yn profi anhawster wrth gysylltu â Phwynt Cyswllt Sengl (SPOC) yr Heddlu, gallant gysylltu â:

Richard Jordan
Y Comisiwn Etholiadol
Uwch Ymgynghorydd - Cywirdeb Etholiadol
Ffôn: 020 7271 0562
E-bost: rjordan@electoralcommission.org.uk

Diogeledd

8.17 Argymhellir bod Swyddogion Canlyniadau Lleol yn adolygu trefniadau blaenorol gyda'r heddlu lleol o ran materion diogeledd er mwyn i opsiynau rheoli risgiau gael eu hystyried yn briodol. Bydd hyn yn darparu sylfaen gadarn ar gyfer llinellau cyfathrebu clir os bydd unrhyw beth yn digwydd yn ystod yr etholiad. Fel arfer bydd hyn yn cynnwys gwneud trefniadau penodol i heddweision ddod i orsafoedd pleidleisio neu alw heibio ar y diwrnod pleidleisio a thrafod unrhyw faterion diogeledd sy'n ymwneud â'r cyfrif. Dylai fod gan staff yr orsaf bleidleisio rifau cyswllt i'w defnyddio os bydd problemau, gan gynnwys pwynt cyswllt â'r heddlu.

8.18 Fel o'r blaen, mae'r Comisiwn yn argymell cysylltu'n gynnar â'r cysylltiadau a nodir yn yr Heddlu. Yn ogystal â chysylltiadau sydd eisoes yn bodoli, dylai Swyddogion Canlyniadau Rhanbarthol a Lleol sicrhau bod ganddynt fanylion SPOC pob Heddlu ar gyfer materion etholiadol. Bydd

[53] Nid yw hyn yn effeithio ar ddyletswydd y Swyddog Cofrestru Etholiadol i gynnal y gofrestr drwy gymryd camau arferol megis ymholiadau o dŷ i dŷ, a gofyn am fwy o wybodaeth.

Pwyntiau Cyswllt Sengl rhanbarthol yn cael eu cyflwyno ar gyfer etholiadau 2009 er mwyn darparu cysylltiadau agosach â Swyddogion Canlyniadau Rhanbarthol. Mae'r Comisiwn yn argymell trefnu cyfarfodydd cynnar a chysylltiadau yn yr heddlu, erbyn mis Ionawr neu Chwefror cyn etholiad mis Mehefin o leiaf er mwyn cytuno ar sut y bydd canllawiau ar atal twyll yn cael eu cymhwyso'n lleol ac eto wedyn ar gyfer sesiwn friffio ddiweddarach ar ôl i enwebiadau ddod i ben.

Arsylwyr Etholiadau

8.19 Diwygiodd Deddf Gweinyddu Etholiadol 2006 Deddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000 er mwyn caniatáu i drafodion etholiadol gael eu harsylwi gan gynrychiolwyr y Comisiwn Etholiadol a chan arsylwyr achrededig y Comisiwn.

8.20 Mae gan gynrychiolwyr y Comisiwn hawl i arsylwi arferion gwaith y Swyddog Cofrestru Etholiadol a'r Swyddogion Canlyniadau Rhanbarthol a Lleol yn ogystal â'r trafodion wrth ddosbarthu a derbyn papurau pleidleisio drwy'r post, y bleidlais a chyfrif y pleidleisiau. Gall unigolion neu sefydliadau eraill wneud cais i'r Comisiwn i gael eu hachredu i arsylwi'r trafodion wrth ddosbarthu a derbyn papurau pleidleisio drwy'r post, y bleidlais a chyfrif y pleidleisiau. Mae'n ofynnol i'r holl arsylwyr lynu wrth y Côd Ymarfer i arsylwyr.[54]

8.21 Gall cynrychiolwyr y Comisiwn holi etholwyr, staff cofrestru ac etholiadol, gan gynnwys yn yr orsaf bleidleisio a'r cyfrif a hefyd ymgeiswyr ac asiantau, ond ni fyddant yn gwneud hyn os byddai'n rhwystro neu darfu ar drafodion etholiadol neu arferion gwaith.

8.22 Mae arsylwi etholiadau'n rhan gyfreithlon a gwerthfawr o'r broses etholiadol, a dylid bod yn ofalus i beidio ag atal neu rwystro'r broses arsylwi. Er bod hawl gan Swyddogion Cofrestru Etholiadol a Swyddogion Canlyniadau Rhanbarthol a Lleol hawl i gyfyngu ar nifer yr arsylwyr sy'n gallu bod yn bresennol mewn unrhyw drafodion. Mae'r Comisiwn yn cynghori y dylid cymryd gofal wrth ddefnyddio'r pŵer hwn. Mae'n bwysig nodi nad oes gan unrhyw swyddog hawl i atal pob arsylwr rhag gweld y broses gyfan, dim ond cyfyngu ar nifer yr arsylwyr sy'n bresennol ar unrhyw adeg benodol. Gan hynny, mae angen ystyried yn ofalus y lleoliadau a ddefnyddir ar gyfer y prosesau etholiadol amrywiol, a bod digon o le ar gael i arsylwyr.

8.23 Ym mhob achos, dylai'r swyddogion geisio cyfyngu ar nifer yr arsylwyr dim ond os yw eu presenoldeb yn rhwystro'r trafodion neu'n peryglu cyfrinachedd y bleidlais.

8.24 Bydd pob arsylwr wedi derbyn bathodyn arsylwr a gynhyrchwyd gan y Comisiwn y mae'n rhaid iddynt ei wisgo pan fyddant yn bresennol yn y trafodion. Gellir gweld mathau y bathodynnau arsylwyr yn Nhabl 1.

---

[53] Y Comisiwn Etholiadol, *Arsylwyr mewn etholiadau yn y Deyrnas Unedig: papur ymgynghori* (Awst 2006), www.electoralcommission.org.uk/__data/assets/electoral_commission_pdf_file/0004/13927/ObserversBooklet-Final_24020-17831__E__S__W__.pdf

Tabl 1: Mathau o fathodynnau arsylwyr

Mathau o fathodynnau arsylwyr	Pwy ydyn nhw?	Mynediad
	Cynrychiolydd y Comisiwn Etholiadol (bathodyn pinc)	Pwerau mynediad estynedig
	Arsylwr sy'n gofrestredig gyda'r Comisiwn (bathodyn arian)	Yr un peth ag ymgeiswyr ac asiantau, ynghyd â mynediad i fater pleidleisiau drwy'r post

9 Cyhoeddusrwydd a'r cyfryngau

Dyletswydd i annog cyfranogiad etholiadol

9.1 Mae Adran 69 Deddf Gweinyddu Etholiadol 2006 yn rhoi dyletswydd newydd ar Swyddogion Cofrestru Etholiadol a Swyddogion Canlyniadau i gymryd camau y maent yn tybio eu bod yn briodol i annog etholwyr i gyfranogi yn y broses etholiadol. Mae gan yr Ysgrifennydd Gwladol bwerau i wneud iawn am unrhyw weithgareddau hyrwyddo o'r fath, ond mae ad-daliad o'r fath yn ôl ei ddisgresiwn. Daw'r ad-daliad hwn o'r gronfa gyfranogi ac nid yw'n cael ei gynnwys o dan Ffioedd Etholiadau Senedd Ewrop, na'i ddarparu drwy Setliad GAE Llywodraeth Leol yn yr Alban a'r Gorchymyn Taliadau

Cynllunio gweithgareddau cyfathrebu

9.2 Mae meddu ar strategaeth gyfathrebu gydlynol fel rhan o'r broses gynllunio'n hanfodol, a dylai cynnwys cyfathrebu mewnol yn ogystal â chyfathrebu allanol. Mae cyfathrebu da rhwng staff etholiadol ar bob lefel, a rhwng Swyddogion Canlyniadau Lleol a Rhanbarthol a'u staff yn rhagofyniad ar gyfer pleidlais lwyddiannus a gydlynir yn dda. Mae cyfathrebu â staff arall y cyngor sydd ag arbenigeddau mewn gweithio gyda'r cyfryngau neu grwpiau penodol megis pobl ifanc neu anabl yn werthfawr hefyd, er bod hyn y tu hwnt i gwmpas yr adran hon, sy'n ymwneud â gweithgareddau cyfathrebu allanol.

9.3 Mae unrhyw etholiad yn denu cryn dipyn o ddiddordeb ac yn cynnwys sawl math o weithgaredd cyfathrebu - o hysbysiadau statudol a dosbarthu cardiau pleidleisio i ddarparu gwybodaeth ac ymdrin ag ymholiadau gan y cyhoedd. Yn ogystal, mae angen rheoli cysylltiadau â'r cyfryngau. Bydd hyn yn effeithio'n benodol ar yr awdurdodau yn Lloegr sydd hefyd yn cynnal etholiadau Llywodraeth Leol.

9.4 Dylai Swyddogion Cofrestru Etholiadol a Swyddogion Canlyniadau sicrhau eu bod yn ymwybodol unrhyw sensitifrwydd gwleidyddol posib ynghylch y gwaith y maent yn ei roi ar waith.

Gall cyhoeddusrwydd ac addysgu pleidleiswyr fod yn gostus os nad ydynt yn cael eu cynllunio'n ofalus a'u cyflwyno mewn ffordd gost-effeithiol. I gynorthwyo Swyddogion Canlyniadau lleol, mae'r Comisiwn wedi datblygu pecyn cymorth cyfranogiad etholiadol ar-lein, sef y 'Do Politics Centre'. Mae'n cynnwys deunyddiau ymarferol, cyngor a chanllawiau ar gyfer ymarferwyr sy'n ceisio cynyddu ymwybyddiaeth pleidleiswyr. Mae'r holl ddeunyddiau ar gael am ddim ac yn cynnwys astudiaethau achos, cynlluniau ar gyfer digwyddiadau, technegau ymgyrchu a thempledi ar gyfer deunyddiau cyfathrebu, a gellir dod o hyd iddynt yn: www.dopolitics.co.uk

9.5 Sefydlwyd is-grwpiau cyfranogi ym mhob un o'r rhanbarthau etholiadol lle mae'r Comisiwn Etholiadol, y Swyddogion Canlyniadau Rhanbarthol a Lleol, Swyddogion Cofrestru Etholiadol a'u staff yn cydweithio ar faterion sy'n ymwneud â chyfathrebu a hyrwyddo cyfranogiad. Ceir gwybodaeth bellach am

yr ymgyrch a deunyddiau ac adnoddau i gefnogi Swyddogion Canlyniadau Lleol gan y Comisiwn drwy hysbysiadau neu gylchlythyron.

Mae'n bosib y bydd Swyddogion Cofrestru Etholiadol a Swyddogion Canlyniadau Rhanbarthol neu Leol am ystyried y posibilrwydd o gynnal ymgyrchoedd cynyddu ymwybyddiaeth ar y cyd gyda chydweithwyr o fewn eu rhanbarth. Gall ymagwedd o'r fath arwain at ddefnydd mwy effeithiol o adnoddau cyfyngedig, a bydd hefyd yn helpu wrth gyflwyno neges gyson ar draws y rhanbarth etholiadol.

Hysbysiadau statudol a hysbysiadau eraill

9.6 Dylid arddangos unrhyw hysbysiadau y mae'n rhaid i'r Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol neu Leol eu cyhoeddi mewn lle neu leoedd amlwg yn y rhanbarth etholiadol neu'r ardal gyfrif leol, p'un bynnag sy'n berthnasol.[55] Dylai Swyddogion Canlyniadau Rhanbarthol a Lleol benderfynu ymhell ymlaen llaw sut maent yn bwriadu cyhoeddi hysbysiadau ar draws eu hardaloedd. Gellir rhoi rhybudd hefyd 'yn y fath ddull arall' ag y tybir ei fod yn ddymunol.

9.7 Cynghorir y dylid adolygu'r holl leoliadau eraill a ddefnyddiwyd yn flaenorol ar gyfer hysbysiadau statudol a hysbysiadau etholiadol eraill er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu rhoi mewn lleoliadau sy'n ddigon hygyrch i'r cyhoedd. Yn ogystal â lleoliadau mwy traddodiadol, mae gwefan y cyngor yn lle defnyddiol i roi hysbysiadau statudol. Gan ystyried y gofyniad i wneud addasiadau rhesymau wrth gyflwyno gwasanaethau i etholwyr anabl, mae'r rhyngrwyd erbyn hyn yn offeryn hanfodol sy'n gallu helpu i wneud gwybodaeth yn hygyrch i'r rhan fwyaf o ddefnyddwyr.

9.8 Gan hynny, mae'r Comisiwn yn argymell y dylid rhoi unrhyw hysbysiad y mae'n rhaid ei gyhoeddi ar wefan y cyngor hefyd cyn gynted â phosib ar ôl i'r hysbysiad materol gael ei gyhoeddi. Yn ystod cyfnod yr etholiad, byddwn hefyd yn argymell creu dolen o hafan y cyngor i'r adran ar wybodaeth etholiadol.

9.9 Cyn gynted ag y bydd enwebiadau'n cau neu, os oes unrhyw wrthwynebiadau, cyn gynted ag yr ymdrinnir â hwy, mae'n rhaid i'r Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol gyhoeddi datganiad, sef y datganiad o bleidiau ac ymgeiswyr unigol a enwebwyd'.[56] Mae'n rhaid i'r Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol anfon o leiaf un copi ohono i bob Swyddog Canlyniadau Lleol, ac mae'n rhaid i bob Swyddog Canlyniadau Lleol gyhoeddi'r hysbysiad mewn lle o fewn eu hardal[57] Mae'n rhaid hefyd i'r Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol anfon copi o'r datganiad hwn i'r Comisiwn Etholiadol.[58]

[55] Rheoliad 123, Rheoliadau ESE.
[56] Rheol 15, Rheolau ESE.
[57] Rheol 17, Rheolau ESE.
[58] Rheol 15 (8), Rheolau ESE.

9.10 Mae'n rhaid hefyd i'r datganiad o bleidiau ac ymgeiswyr unigol a enwebwyd gynnwys hysbysiad o bleidlais os bydd yr etholiad yn cael ei herio.[59]

9.11 Mae'n rhaid i'r Swyddog Canlyniadau Lleol gyhoeddi hysbysiad o leoliad pob gorsaf bleidleisio a disgrifiad o'r pleidleiswyr sydd â hawl i bleidleisio yno. Cyn gynted ag y cyhoeddir yr hysbysiad hwn, mae'n rhaid i'r Swyddog Canlyniadau Lleol roi copi ohono i bob un o'r asiantaethau etholiadol.[60]

Rheoli ymholiadau cyhoeddus

9.12 Nodwedd y diwrnodau cyn yr etholiad a'r diwrnod pleidleisio ei hun yw'r nifer mawr o ymholiadau gan bleidleiswyr, yn bersonol a thros y ffôn. Gall sefydlu tîm penodedig (neu ddarparu hyfforddiant ar gyfer staff rheng flaen) i ymdrin â'r nifer uchel o ymholiadau a ddisgwylir o fewn graddfa amser gymharol fer greu buddion gwirioneddol, ar gyfer y cyhoedd a staff etholiadol.

9.13 Mae angen cynllunio darpariaeth o'r fath yn ofalus ac, os yw'n cael ei chyflwyno'n ofalus, bydd yn sicrhau yr ymdrinnir ag ymholiadau pleidleiswyr yn brydlon, gan eu cyfeirio i staff mwy profiadol fel y bo angen a chan, ar yr un pryd, cymryd pwysau ymholiadau cyffredinol i ffwrdd o'r swyddfa etholiadau.

9.14 Bydd y Comisiwn yn cynhyrchu templed cwestiynau cyffredin ar gyfer staff sy'n ymwneud ag ymdrin ag ymholiadau gan etholwyr, megis y rhai sy'n staffio unrhyw linell gymorth etholiadol a sefydlir gan y cyngor, a byddant ar gael i'w lawrlwytho o wefan y Comisiwn.

Materion ymwybyddiaeth pleidleiswyr penodol

Newidiadau i leoedd a gorsafoedd pleidleisio
9.15 Yn ogystal â'r hysbysiad statudol, cynghorir y dylid hysbysu etholwyr yn glir am unrhyw newidiadau i leoliadau gorsafoedd pleidleisio. Gellir gwneud hyn drwy gynnwys gwybodaeth ychwanegol gyda'r cerdyn pleidleisio, megis map syml a thestun bras sy'n rhoi gwybod am leoliad newydd, gan dynnu sylw etholwyr at y trefniadau newydd. Fodd bynnag, mae'n rhaid i'r geiriau statudol ar gyfer y cardiau pleidleisio aros yn gyson.

Gwybodaeth am y system etholiadol a sut i bleidleisio
9.16 Bydd pleidleiswyr yn ethol eu cynrychiolwyr drwy ffurf ar gynrychiolaeth gyfrannol rhestr gaeedig, gan ddefnyddio fformiwla d'Hondt ar gyfer dosbarthu seddau.

9.17 Er mwyn medru bwrw pleidlais ddilys ac effeithiol, mae angen i etholwyr fod yn ymwybodol o sut mae pleidleisio mewn etholiad Senedd Ewrop yn gweithio a sut mae eu pleidleisiau'n cael eu trawsnewid yn seddau.

[59] Rheol 27, Rheolau ESE.
[60] Rheol 27, Rheolau ESE.

Cyfunedig
Dylai Swyddogion Canlyniadau Lleol sydd ag etholiadau cyfunedig yn Lloegr ystyried sut y gellir cyfleu gwybodaeth ynghylch y systemau etholiadol gwahanol i etholwyr.

Materion mynediad

9.18 Mae angen hysbysebu unrhyw gyfleusterau neu ddarpariaethau ar gyfer pleidleiswyr anabl, y rhai â lefelau llythrennedd isel a'r rhai nad ydynt yn siarad Saesneg fel iaith gyntaf er mwyn iddynt wybod eu bod ar gael. Bydd angen hefyd i unrhyw gyhoeddusrwydd o'r fath fod mewn fformat sy'n hygyrch i'w gynulleidfa arfaethedig.

Mae'r Comisiwn Etholiadol wedi cyhoeddi ymchwil annibynnol i'r amrywiaeth o weithgareddau a gyflawnir gan gynghorau lleol yn y DU i hyrwyddo materion etholiadol. Mae'r adroddiad hwn, *Making an Impact*, yn argymell y dylai deunyddiau hyrwyddo da geisio cyflawni'r canlynol:[61]

- bod yn eglur ynghylch pwy maent yn anelu ato
- defnyddio iaith sy'n briodol i'r gynulleidfa
- cael ei gynhyrchu mewn fformat sy'n hygyrch i'r gynulleidfa
- cyfleu neges glir
- bod yn atyniadol neu'n dal y llygad
- annog gweithredu ar ran y gynulleidfa

9.19 Mae'n bwysig cofio bod ardaloedd a chymunedau gwahanol yn cadw nodweddion unigryw, sy'n golygu y gall yr un gweithgareddau neu ddeunyddiau hyrwyddo weithio'n dda mewn rhai ardaloedd a chyda rhai grwpiau a heb fod cystal gyda rhai eraill.

9.20 Mae'r canlynol yn enghreifftiau o sut i ddarparu gwybodaeth ddefnyddiol ac ymarferol ar fynediad:

Gwybodaeth Gyffredinol	• Gellir darparu gwybodaeth am gofrestru etholiadol ac etholiadau a'r cyfleusterau sydd ar gael i gynorthwyo pobl anabl ar wefan y cyngor. • Gellir darparu llinell gymorth etholiadau, gyda rhif a chyfeiriad e-bost penodedig. • Gellir dosbarthu taflenni, posteri ac erthyglau papur newydd i amrywiaeth o sefydliadau sy'n gweithio gyda grwpiau penodol o fewn y gymuned er mwyn iddynt ledaenu gwybodaeth yn effeithiol drwy eu rhwydweithiau – er enghraifft Age Concern, Papurau Newydd ar Lafar a grwpiau o bobl o gymunedau lleiafrifoedd ethnig.

[61] Y Comisiwn Etholiadol, *Making an impact* (2002), www.electoralcommission.org.uk

	• Dylai strategaethau cyhoeddusrwydd a hysbysebu ystyried yr amrywiaeth o gymunedau lleol. Gwelwyd yn flaenorol mai'r strategaeth fwyaf effeithiol yw'r gair llafar, ac mae radio a theledu lleol yn opsiynau poblogaidd. Yn enwedig gyda dyfodiad darlledu digidol a chebl, gall fod gorsafoedd radio neu deledu ieithoedd lleiafrifol mewn ardaloedd sydd â chymunedau lleiafrifoedd ethnig mawr. • Mae erthyglau mewn papurau newydd lleol, gan gynnwys papurau newydd am ddim a chymunedol a hysbysebion wedi'u cyfieithu yn wasg y lleiafrifoedd ethnig i gyd yn ddefnyddiol.
Pleidleisio Absennol	• Gellir rhoi gwybodaeth ynghylch dulliau eraill o bleidleisio, h.y. pleidleisio drwy'r post a thrwy ddirprwy, i bobl y mae'n well ganddynt bleidleisio fel hyn. • Gellir cynhyrchu canllaw Saesneg syml a chlir ar bleidleisio drwy'r post, sy'n cynnwys symbolau i esbonio sut i gwblhau a choladu'r gwaith papur angenrheidiol.
Gorsafoedd pleidleisio	Gellir cyhoeddi taflen ar beth i'w ddisgwyl mewn gorsafoedd pleidleisio, gan gynnwys gwybodaeth ar ffurf lluniau, yn benodol ar gyfer pobl anabl.

Mae'r Comisiwn wedi cynhyrchu canllawiau hawdd eu darllen ar gyfer Lloegr, yr Alban a Chymru, y gellir eu harchebu o'n dosbarthwr:

Ffôn: 0845 8500 501
Ffacs: 020 8867 3225
E-bost: ecpublications@ecgroup.co.uk

Mae'r daflen hefyd ar gael i'w lawrlwytho o Ganolfan 'Do Politics' y Comisiwn yn: www.dopolitics.org.uk

9.21 Dylid cysylltu'n uniongyrchol â grwpiau cymunedol, gan gynnwys y rhai i bobl hŷn a phobl anabl. Gall fod rhwydwaith presennol o gyhoeddusrwydd a chymorth o fewn y cymunedau y gellir adeiladu arnynt.

9.22 Dylai Swyddogion Canlyniadau Lleol fod yn ymwybodol o'r cymunedau a'r ieithoedd gwahanol yn eu hardal a thargedu adnoddau a gwybodaeth yn briodol.

Pleidleisio drwy'r post a thrwy ddirprwy

9.23 Er ei fod yn well gan lawer o bobl, gan gynnwys pobl anabl, bleidleisio'n bersonol, mae rhai eraill yn ei chael hi'n haws pleidleisio drwy'r post neu benodi dirprwy i bleidleisio ar eu rhan. Gan hynny, dylid hysbysebu pleidleisio drwy'r post a thrwy ddirprwy yn ddigonol er mwyn i bobl fod yn ymwybodol o'r darpariaethau hyn a sut i wneud cais. Ar sail gwybodaeth am yr ardal, dylid gadael ffurflenni cais mewn amrywiaeth o leoedd lle mae pobl yn gallu cael gafael arnynt yn rhwydd. Gellir cynhyrchu ffurflenni pleidleisio absennol mewn amrywiaeth o fformatau er mwyn ei gwneud hi'n haws i bobl wneud cais.

9.24 Mae'r Comisiwn yn cynhyrchu ffurflenni cais pleidleisio drwy'r post ac mae'r taflenni sy'n cynnwys y ffurflenni wedi'u cynhyrchu mewn nifer o ieithoedd a fformatau, gan gynnwys tâp sain, Braille a phrint bras, ac maent ar gael am ddim. Mae'r holl daflenni mewn ieithoedd tramor yn ddwyieithog. Mae taflenni a ffurflenni cais pleidleisio drwy'r post ar gael fel copïau caled neu gellir eu lawrlwytho o wefan y Comisiwn.

9.25 Yn ogystal â'r papurau pleidleisio, y datganiad pleidleisio drwy'r post ac amlenni, mae'n bosib y bydd Swyddogion canlyniadau Lleol am gynnwys gwybodaeth y maent yn tybio ei bod yn briodol ynghylch sut i ddod o hyd i gyfarwyddiadau a chanllawiau mewn fformatau gwahanol mewn pecynnau pleidleisio drwy'r post. Mae darparu gwybodaeth ar ffurf lluniau'n arbennig o ddefnyddiol i'r holl bleidleiswyr, gan gynnwys y rhai sydd â lefelau llythrennedd isel.

Rheoli cysylltiadau â'r cyfryngau

9.26 Cyn unrhyw etholiad, dylai Swyddogion Cofrestru Etholiadol, Swyddogion Canlyniadau Rhanbarthol a Lleol a gweinyddwyr etholiadol benderfynu sut y dylid trin cysylltiadau â'r cyfryngau a rhoi'r trefniadau angenrheidiol ar waith. Dylai Swyddogion canlyniadau egluro ymlaen llaw pwy o fewn eu staff sydd â chaniatâd i siarad â'r wasg a'r cyfryngau darlledu, a dylent sicrhau bod yr holl staff yn ymwybodol o'r wybodaeth hon. Gellir ymdrin â materion rheoli risgiau drwy weithdrefnau cadarn ar gyfer rhyddhau gwybodaeth sy'n ymwneud â'r etholiad yn gywir ac yn briodol.

9.27 Mae'n bwysig hefyd i'r cyfryngau wybod pwy yw eu person cyswllt ar gyfer gwybodaeth a'u bod yn cael eu cyfeirio'n uniongyrchol i'r cyswllt hwnnw gan staff y cyngor. Mae'n bosib y bydd Swyddogion Canlyniadau Lleol am ystyried defnyddio swyddfa wasg y cyngor fel swyddfa wasg ar gyfer yr etholiad. Mae hyn yn golygu bod y cyfryngau'n ymwneud â phobl sydd wedi'u hyfforddi ynghylch sut i ymdrin â hwy, gan ganiatáu i weinyddwyr fwrw ymlaen gyda gweinyddu'r etholiad. Mae hefyd yn sicrhau bod neges gyson yn cael ei chyfleu ar ran y Swyddog Canlyniadau Lleol wrth ymateb i'r holl ymholiadau gan y wasg.

9.28 Gall y cyfryngau gynorthwyo gweinyddu'r etholiad mewn sawl ffordd, er enghraifft, drwy gynyddu ymwybyddiaeth o'r etholiad a cheisio codi diddordeb yr etholaeth. Gall y cyfryngau fod yn arbennig o ddefnyddiol o ran cyfleu

neges i bleidleiswyr os ceir unrhyw amgylchiadau sy'n gofyn am drefniadau newydd neu ddiwygiedig, neu o ran hysbysu grwpiau cymunedol penodol am drefniadau a allai fod o fudd iddynt, er enghraifft, gwybodaeth am hygyrchedd. Mae cynllunio unrhyw strategaeth i'r cyfryngau ymlaen llaw yn bwysig er mwyn nodi holl ddyddiadau allweddol y broses gweinyddu'r etholiad y gellir eu defnyddio i amlygu'r etholiad ei hun.

9.29 Bydd Swyddogion Canlyniadau Lleol yn ei chael hi'n ddefnyddiol i gael manylion cyswllt cyfredol yr holl gyfryngau perthnasol yn eu hardal.

Pecynnau Briffio

9.30 Bydd darparu pecyn briffio sy'n cynnwys gwybodaeth a chysylltiadau defnyddiol yn arbed llawer o amser i Swyddogion Canlyniadau a'u staff yn yr hir dymor. Mae hefyd yn helpu'r cyfryngau i gyflawni eu swyddi. Awgrymir bod unrhyw becyn briffio'n cynnwys y canlynol:

- amserlen yr etholiad
- manylion cyswllt swyddfa wasg yr etholiad
- trefniadau mynediad y cyfryngau i'r camau dilysu a chyfrif
- canlyniadau etholiadau blaenorol perthnasol
- manylion pleidiau gwleidyddol cofrestredig a'u rhestr o ymgeiswyr ac ymgeiswyr unigol a'u hasiantau

9.31 Dylid paratoi pecynnau briffio'r wasg ymhell ymlaen llaw er mwyn iddynt gael eu darparu ar ddechrau'r broses etholiadol. Fe fydd y Comisiwn yn cynhyrchu llawlyfr ar-lein ar gyfer y cyfryngau cyn etholiadau Senedd Ewrop ac yr etholiadau llywodraeth leol yn Lloegr, sy'n egluro rôl y Comisiwn yn yr etholiadau, ac sy'n ateb cwestiynau a ofynnir yn aml gan y cyfryngau ynghylch trefn cynnal etholiadau a rheoliadau gwariant ar ymgyrch a gofynion adrodd ar etholiadau. Fe fydd y llawlyfr ar gael i'w lawrwlytho oddi ar wefan y Comisiwn yn ystod tymor y gwanwyn 2009.

Gorsafoedd pleidleisio

9.32 Nid oes gan y cyfryngau unrhyw hawliau i fynd i mewn i orsaf bleidleisio ond fel pleidleiswyr. Mae'n rhaid peidio â chaniatáu iddynt ffilmio neu gyfweld â phleidleiswyr yn yr orsaf bleidleisio. Os yw'r Swyddog Canlyniadau Lleol wedi rhoi caniatâd i griw ffilmio y tu allan i'r orsaf bleidleisio ond o fewn y lleoliad pleidleisio, mae'n rhaid cyfarwyddo'r Swyddogion Llywyddu i sicrhau nad yw'r criw ffilmio'n rhwystro nac yn aflonyddu pleidleiswyr ar eu ffordd i bleidleisio, na rhwystro'r mynediad i'r orsaf bleidleisio.

9.33 I osgoi gorfod gwrthod ceisiadau am fynediad i orsafoedd pleidleisio ar y diwrnod pleidleisio, gall fod yn ddefnyddiol i Swyddogion Canlyniadau Lleol ystyried agor gorsaf bleidleisio i'r cyfryngau cyn i'r bleidlais ddechrau, yn gyffredinol ar y diwrnod cyn y diwrnod pleidleisio. Bydd hyn yn rhoi cyfle i griwiau teledu ffilmio cyn y diwrnod pleidleisio, ac yn aml mae hyn yn ymddangos ar y noson cyn y bleidlais.

Dilysu a'r cyfrif

9.34 Lle mae cwmnïau radio a/neu deledu'n mynegi diddordeb mewn darlledu o'r lleoliadau dilysu a/neu gyfrif, mae'n arfer da i gwrdd yn gynnar â chynrychiolwyr y cyfryngau i drafod bwriad y Swyddog Canlyniadau Lleol ynghylch sut bydd y prosesau dilysu a chyfrif yn symud ymlaen a hefyd i gael gwybod am ofynion tebygol y cyfryngau.

Cyfunedig
Gall fod diddordeb penodol ar ran y cyfryngau yn yr ardaloedd sy'n cynnal etholiadau cyfunedig, ac mae'n bosib y bydd Swyddogion Canlyniadau Lleol am gwrdd â chynrychiolwyr y cyfryngau i ddisgrifio sut byddant yn rheoli'r prosesau cyfrif gwahanol. Yn benodol, bydd gan ddarlledwyr ddiddordeb yn amseriad y cyfrif a phryd y gallant ddisgwyl darlledu unrhyw ganlyniadau.

9.35 Dylid ystyried y canlynol wrth gynllunio cyfleusterau i'r cyfryngau yn y lleoliadau dilysu a/neu gyfrif:

- Cysylltu â'r prif sefydliadau darlledu ymhell ymlaen llaw.
- Amlinellu'r cyfleusterau sydd ar gael i'r wasg. Cofiwch mai'r Swyddog Canlyniadau Lleol ac nid y cyfryngau sy'n penderfynu ar yr hyn a ganiateir yn lleoliad y cyfrif.
- Mae'n bosib y bydd cynrychiolwyr y cyfryngau am weld y lleoliad ymlaen llaw, yn enwedig os ydynt yn bwriadu ffilmio ar y noson.
- Darparu cyfle i gynrychiolwyr y cyfryngau archwilio'r lleoliad i nodi lle ar gyfer cyfweliadau a pharcio cerbydau ac i nodi llwybrau ceblau, asesu'r cyflenwad trydan ac amlygu gofynion cyfathrebu (megis llinellau ffôn ac ISDN).
- Gwneud trefniadau ar gyfer nodi bod y prosesau dilysu a chyfrif wedi'u cwblhau, ynghyd â'r gweithdrefnau datgan.
- Trefnu i systemau sain gael eu defnyddio ar gyfer cyhoeddiadau a'r darllediad byw.
- Gwneud trefniadau achredu ar gyfer gohebyddion, technegwyr a ffotograffwyr a fydd yn bresennol.
- Dynodi rhan o'r lleoliad at ddefnydd y cyfryngau.
- Darparu hawlenni i'r cyfryngau.
- Sicrhau bod y rhai sy'n bresennol yn ymwybodol o'r darpariaethau cyfrinachedd.
- Sicrhau bod llefarydd enwebedig ar gael i'r cyfryngau ar gyfer y broses gyfrif, bod pawb yn ymwybodol o bwy yw'r person hwn a bod yr holl gwestiynau'n cael eu cyfeirio i'r person hwnnw.
- Sicrhau bod y cyfryngau'n ymwybodol o unrhyw ardaloedd a gweithdrefnau a waherddir - er enghraifft, sicrhau bod gweithredwyr camerâu yn gwybod bod rhaid iddynt beidio â ffilmio gwybodaeth sensitif (megis closio ar bapurau pleidleisio) neu rwystro staff dilysu/cyfrif.
- Cyfeirio unrhyw gwestiynau perthnasol i'r Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol.

9.36 Dylai unrhyw becyn briffio a baratoir ar gyfer y cyfryngau roi manylion pa gyfleusterau a ddarperir ar eu cyfer, gan gynnwys gwybodaeth am yr etholiad, yr ardal a'r ymgeiswyr (gan gynnwys ffotograffau os ydynt ar gael) a gwybodaeth mewn iaith glir am y prosesau dilysu a chyfrif.

9.37 Mae'n bosib y bydd y Swyddog Canlyniadau Lleol am nodi amserlen debygol o ddigwyddiadau ar y diwrnod hefyd, gydag amcangyfrif o'r amserau cwblhau posib. Cynghorir y dylai Swyddogion Canlyniadau Lleol roi ychydig funudau yn ystod y cyfrif lleol i drafod gyda chynhyrchwyr a gohebyddion sut byddant yn nodi pan fydd yr amser wedi cyrraedd i wneud cyhoeddiad. Bydd hyn yn caniatáu i ddesgiau newyddion gael eu hysbysu, er mwyn sefydlu ffrydiau darlledu byw ar fyr rybudd os dymunir.

10 Adnoddau

Cysylltiadau Allweddol

Enw/sefydliad	Manylion Cyswllt
British Printing Industries Federation Farringdon Point 29–35 Farringdon Road London EC1M 3JF	**www.britishprint.com**
Bob Toal Swyddog Materion Cyhoeddus	E-bost: bob.toal@bpif.org.uk Ffôn: 020 7915 8319
Capability Scotland Prif Swyddfa Westerlea 11 Ellersly Road Edinburgh EH12 6HY	**www.capability-scotland.org.uk** Ffôn: 0131 313 5510
Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol 3 More London Riverside Tooley Street London SE1 2RG	**www.equalityhumanrights.com** Ffôn: 020 3117 0235
Swyddfa Deisebau Etholiadol Swyddfa Deisebau Adran Ysgrifennydd Meistr Mainc y Frenhines Ystafell EO8 Y Llysoedd Cyfiawnder Brenhinol The Strand London WC2A 2LL	Ffôn: 020 7947 7529
Gweinyddiaeth Gyfiawnder Selborne House 54 Victoria Street London SW1E 6QW	**www.justice.gov.uk** Ffôn: 020 7210 8500
RNIB(Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol y Deillion) 105 Judd Street London WC1H 9NE	**www.rnib.org.uk** E-bost: helpline@rnib.org.uk Ffôn: 020 7388 1266

RNID (Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol y Byddar) 19–23 Featherstone Street London EC1Y 8SL	**www.rnid.org.uk** E-bost: informationline@rnid.org.uk Ffôn: 020 7296 8000
Y Post Brenhinol	**www.postbrenhinol.com/ cymraeg/**
Scope 6 Market Road London N7 9PW	**www.scope.org.uk** E-bost: response@scope.org.uk Ffôn: 020 7619 7100
Swyddfa'r Alban 1 Melville Crescent Edinburgh EH3 7HW	**www.scotlandoffice.gov.uk** Ffôn: 0131 244 9005
Llysoedd yr Alban	**www.scotcourts.gov.uk**
Bwrdd yr Iaith Gymraeg Siambrau'r Farchnad 5-7 Stryd y Santes Fair Caerdydd CF10 1AT	**www.bwrdd-yr-iaith.org.uk** E-bost: post@bwrdd-yr-iaith.org.uk Ffôn: 029 2087 8000